

**DATGANIAD  
CYFRIFON  
2010/11**

**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN**

**CYNNWYS**

	<b>Tudalen</b>
	1
	4
	5
	6
	7
	8
Nodyn 1	9
Nodyn 2	28
Nodyn 3	28
Nodyn 4	29
Nodyn 5	30
Nodyn 6	30
Nodyn 7	31
Nodyn 8	33
Nodyn 9	35
Nodyn 10	36
Nodyn 11	36
Nodyn 12	37
Nodyn 13	39
Nodyn 14	40
Nodyn 15	41
Nodyn 16	44
Nodyn 17	44
Nodyn 18	45
Nodyn 19	45
Nodyn 20	46
Nodyn 21	47
Nodyn 22	48
Nodyn 23	49
Nodyn 24	53
Nodyn 25	53

		<b>Tudalen</b>
Nodyn 26	Llif Arian o Weithgareddau Cyllido	54
Nodyn 27	Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau	54
Nodyn 28	Gweithrediadau a Gaffaelwyd a rhai Disgownt	59
Nodyn 29	Gweithrediadau Masnachu Sylweddol	59
Nodyn 30	Lwfansau Aelodau	60
Nodyn 31	Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion	61
Nodyn 32	Ffioedd Archwilio Allanol	62
Nodyn 33	Incwm Grant	63
Nodyn 34	Partïon Cysylltiedig	64
Nodyn 35	Gwariant Cyfalaf a Chyllido	67
Nodyn 36	Prydlesau	68
Nodyn 37	Colledion Amhariad	68
Nodyn 38	Buddiannau Terfynu	68
Nodyn 39	Cynllun Pensiwn sy'n cael ei drin fel Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig	68
Nodyn 40	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig	69
Nodyn 41	Rhwymedigaethau Wrth Gefn	75
Nodyn 42	Asedau Wrth Gefn	75
Nodyn 43	Datgelu Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol	76
Nodyn 44	Y Dreth Gyngor	79
Nodyn 45	Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	79
	Cyfrif Refeniw Tai - Datganiad Incwm a Gwariant	81
	Cyfrif Refeniw Tai - Datganiad Symudiadau ar Falens CRT	82
	Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai	83
	Trosglwyddo i Addasiad Safonau Adrodd Ariannol	86
	Rhyngwladol (SAARH)	
	Geirfa	95
	Adroddiad Archwilwyr i Aelodau	103

## **RHAGYMADRODD EGLURHAOL**

### **ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN**

Roedd cyllideb refeniw'r Cyngor am 2010/11 yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd a oedd yn effeithio ar yr holl wasanaethau, adeiladu capasiti'r gwasanaethau canolog a rhai datblygiadau i wasanaethau. Cyllidwyd y gyllideb trwy grantiau'r Llywodraeth Cymru a 4.5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor.

Yn ystod y flwyddyn, daeth yn amlwg fod raid wrth doriadau sylweddol iawn o 2011/12 ymlaen a dechreuodd y gwasanaethau baratoi ar eu cyfer trwy nifer o brosiectau dan y faner Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

Roedd y perfformiad ar y gyllideb refeniw yn galonogol: at ei gilydd roedd tanwariant yn y cyllidebau corfforaethol a gwnaed arbedion sylweddol ar gaffael contractau cludiant. Ond cynhyrchodd y Dreth Gyngor llai na'r disgwyl oherwydd na chodwyd tai newydd ar y raddfa a dybiwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn gwario'n ddiogel tu mewn i'w cyllidebau. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol daliwyd ymlaen gyda'r cynnydd da yn y gwaith rheoli cyllid a chan wario £1.2 miliwn yn llai na'r gyllideb flynyddol a hynny'n cael ei gyflawni trwy gadw'r gyllideb dan reolaeth gaeth a hefyd trwy weithredu'n brydlon ar brosiectau dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

Dan y gyllideb Addysg gwelwyd tanwariant £0.8 miliwn ar ôl sicrhau rheolaeth ar wariant integreiddio disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig yn yr ysgolion prif ffrwd a chyflawnwyd arbedion dan sawl cyllideb.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gwariant net yr ysgolion wedi gostwng eu cronfeydd wrth gefn (fel cyfanswm) i lefel £2.2 miliwn – gostyngiad £0.9 miliwn. Cyfyngir y defnydd y gellir ei wneud o'r cronfeydd wrth gefn hyn i'r ysgolion unigol ac mae gwahaniaeth rhwng sefyllfaoedd yr ysgolion. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan naw o ysgolion ddiffyg ariannol ac mae sawl ysgol arall yn disgwyl diffygion mewn blynyddoedd i ddod.

O ganlyniad i arbedion disgwylidig £2.2m ar ddiwedd y trydydd chwarter yn rhoi hwb tu draw i'r lefel angenrheidiol yn y balansau cyffredinol, penderfynwyd bod modd defnyddio hyd at £2.5m yn 2011/12 i gwrdd â chostau torri gwasanaeth. Ym Mawrth 2011 pennwyd cyllideb y Cyngor a rhyddhawyd gwybodaeth am raglen ddiswyddo; yn sgil hynny mae yng nghyfrifon 2010/11 wariant a darpariaeth o £1.0m tuag at gostau torri gwasanaeth.

Y canlyniad terfynol am y flwyddyn yw'r cynnydd o £1.0m yn y Balansau Cyffredinol gan eu codi i £6.8m a gostyngiad o £0.7m yn y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i £11.6m.

### **CYFALAF**

Yn ystod y flwyddyn gwariodd y Cyngor £24m a nodir isod beth yw'r eitemau mwyaf yn y gyllideb gyfalaf. Roedd yr Archifdy newydd yn gynllun newydd yn 2011/12, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2011. Ni chwblhawyd yr un prosiect mawr yn y flwyddyn. Yn nhrydedd flwyddyn rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) bwriwyd ymlaen gyda'r gwario sylweddol – a hwnnw o gwmpas £6m y flwyddyn.

**PROSIECTAU CYFALAF MAWR**

Prosiect	Yn y Flwyddyn	Cronnus	Cyfanswm Prosiect
	£000	£000	£000
Stoc Dai – Pecynnau Mewnol WHQS	6,618	13,351	35,000
Adfywio 3 Tref	1,768	2,368	8,738
Amgylchedd arfordirol	1,571	2,316	5,582
Adeilad Archifdy newydd	898	898	1,129

**GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO 2010/11**

	Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cyfanswm
	£000	£000	£000
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>14,969</b>	<b>9,143</b>	<b>24,112</b>
Grantiau a Chyfraniadau	9,852	2,640	12,492
Derbynion Cyfalaf	4,362	166	4,528
Cyfraniadau Refeniw	755	3,948	4,703
Benthyca gyda chefnogaeth	0	1,000	1,000
Benthyca digefnogaeth	0	1,389	1,389
<b>Cyfanswm y Cyllido</b>	<b>14,969</b>	<b>9,143</b>	<b>24,112</b>

Roedd yr ymrwymadau cyfalaf a oedd heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn yn £8.5 miliwn. Cafodd £1.4 miliwn, ynghyd â chapasiti benthyca na chafodd ei ddefnyddio ond a gymeradwywyd - sef £6.7 miliwn arall - ei neilltuo i ddiben yr ymrwymadau hyn ac i gynnal prosiectau eraill a raglennwyd ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Bydd cynlluniau eraill yn cael eu cyllido gyda grantiau a gymeradwywyd, gyda derbynion ar ôl gwerthu asedau a chyda benthyciadau.

**CYLLIDO CYFALAF**

Yng nghyllideb gyfalaf gwreiddiol y Cyngor am 2010/11 roedd darpariaeth £3.3m ar gyfer benthyca gyda chefnogaeth i gyllido gwariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor. Ond trwy ddefnyddio grantiau, derbynion cyfalaf a Chyfraniadau Refeniw cyllidwyd y cyfan o'r gwariant heb orfod benthyca dim arian. Yn yr un modd nid oedd angen cymaint o fenthyciadau digefnogaeth ar draws y Cyfrif Refeniw Tai a Chronfa'r Cyngor. Yn sgil hyn mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn llai na'r disgwyl a bydd hyn yn ei dro yn lleihau'r symiau y bydd raid eu neilltuo o refeniw ym mlynnyddoedd y dyfodol. Bydd yr arian na chafodd ei ddefnyddio ar gael eleni.

Dibynna'r Cynllun Cyfalaf ar adnoddau grantiau, ar dderbynion cyfalaf disgwylidig ac ar lefel fenthyca sy'n agos i honno a ragdybiodd y Cynulliad Cenedlaethol pryd yr oedd hwnnw'n cyfrifo'r gefnogaeth refeniw. Ond mae'r amgylchiadau economaidd wedi cael effaith ar ragolygon gwerthu asedau ac mae'r Cynllun Cyfalaf, mewn ymateb, yn cael ei ddiwygio.

Rhodddwyd cymeradwyaeth i nifer fechan o brosiectau ar gyfer benthyca digefnogaeth a'u cyllido trwy gyllidebau neu gyda ffynonellau newydd o incwm. Y prosiect amlycaf yw'r un WHQS prosiect fydd yn cael ei gyllido'n rhannol yn y ffordd hon o 2010 ymlaen

## **CYFRIF REFENIW TAI**

Mae defnyddio Cyfraniadau Refeniw, yn hytrach na benthycu, i gyllido gwariant cyfalaf yn y Cyfrif Refeniw Tai yn gostwng y balans o £2.5m i £0.3m. Mae'r benthyciad digefnogaeth na chafodd ei ddefnyddio'n dal i fod ar gael yn 2011/12.

## **BENTHYCA A BUDDSODDIADAU**

Trefnwyd un benthyciad £5m a hynny'n cynyddu'r benthycu allanol i £102.6m. Cymerwyd y benthyciad newydd hwn ar raddfa isel o 3.52% gan ostwng, o 5.40% i 5.31%, y gyfradd allanol ar gyfartaledd. Ni chymerwyd yr un benthyciad newydd ar ôl cyhoeddi llogau uwch gan y Bwrdd Benthycu Gweithiau Cyhoeddus ym mis Hydref 2010 ac ni wnaed gwaith ad-dalu nac aildrefnu yn ystod y flwyddyn. Oherwydd benthycu mwy nag a ddefnyddiwyd i gyllido gwariant cyfalaf newydd yn ystod y flwyddyn, mae'r gwahaniaeth rhwng y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a'r benthyciadau allanol yn £4.9m. Bydd yr arian hwn yn cael ei defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn y dyfodol agos.

Yn dilyn o'r trafodion hyn ac oherwydd cynnydd cyffredinol yn y cronfeydd wrth gefn, gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm lefel y buddsoddiadau a'r arian parod ar ddyddiad y Fantolen – cynnydd o £12.2m i £35.2m erbyn diwedd y flwyddyn.

## **SEFYLLFA ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2011**

Mae gwerth net yr Awdurdod yn y Fantolen wedi cynyddu o ragor na £106m dros y flwyddyn a hynny i'w briodoli i ostyngiad £89.3m yn rhwymedigaeth bensiwn net y Cyngor a chynnydd o £20.2m yng ngwerth yr asedau nad ydynt yn gyfredol. Mae'r datganiad yn dangos amcangyfrif i'r rhwymedigaeth net o £46.6 miliwn yng nghyswllt pensiynau, sy'n fwy na'r gostyngiad yn 2009/10. Mae'r amcangyfrif hwn yn dibynnu'n drwm ar y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd, ac roedd y gostyngiad dros y flwyddyn i'w briodoli'n bennaf i ddychweliadau positif ar asedau ac i ostyngiad yn y disgwyliadau chwyddiant dros dymor hir, a hefyd i newid y mynegai chwyddiant a ddefnyddir i ragamcanu beth fydd y codiadau pensiwn.

Yr asesiad gorau o gadernid ariannol yw ystyried i ba raddau y mae'r awdurdod wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac ystyried hefyd faint o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael fel diogelwch yn erbyn risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn pryd bynnag y mae hynny'n ofyn statudol, pan fo cynlluniau'r Cyngor wedi clustnodi hynny neu pan fo'n ddoeth i bwrrpas diogelu yn erbyn risg neu ansicrwydd. Y bwriad ar y cychwyn oedd peidio â gwneud defnydd sylweddol o'r balansau yn ystod y flwyddyn er bod y Pwyllgor Gwaith wedi cael caniatâd i ddefnyddio hyd at £0.6m o'r balansau i gyllido costau newid, gan gynnwys costau torri gwasanaeth yn 2010/11. Mewn gwirionedd rhyw £0.4m ohono a ddefnyddiwyd ynghyd â £1.0 miliwn a awdurdodwyd yng nghyswllt cyllideb 2011/12. Roedd arbedion y flwyddyn yn £2.8 miliwn ac ar ei diwedd roedd £6.7m yn y balansau cyffredinol. Rhoddwyd o'r neilltu £1.2 miliwn ar gyfer costau gyda Statws Sengl a chydag Arfarnu Swyddi, ond nid amcangyfrif yw hwn i unrhyw rwymedigaeth wirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn £2.2 miliwn, balans y Cyfrif Refeniw Tai yn £0.3 miliwn a'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn £11.6 miliwn.

Mae cadernid ariannol yr Awdurdod yn ddigonol er gwaethaf y dirywiad yng nghyflwr cyllid cyhoeddus. Yr hyn a wna'r patrwm tanwario cyffredinol yw dangos inni ba mor ddoeth fu'r deiliad cyllidebau a'u parodrwydd i weithredu ar arbedion cyn gynted ag y gwelwyd potensial. Wrth fonitro'r Gyllideb yn ystod y flwyddyn roedd modd ystyried y gwelliant net wrth lunio cyllideb y flwyddyn ddilynol, a hynny'n tynnu pwysau oddi ar yr arbedion angenrheidiol yn 2011/12 ac ymlaen. Fodd bynnag mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn dal i fod yn bur dywyll.

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol ar i Gyngor Sir Ynys Môn:

- \* wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid).
- \* reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu asedau.
- \* gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cyllid)

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cyllid) sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr awdurdod yn unol â'r ymarfer priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Côd SAARH").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cyllid) wedi:

- \* dewis polisiau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson.
- \* ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus.
- \* cydymffurfio â'r Côt Ymarfer SAARH.

Hefyd mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cyllid) wedi:

- \* cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol.
- \* cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

**Llofnodwyd:** .....

**GILL LEWIS  
SWYDDOG CYLLID 151 DROS DRO**

**8fed TACHWEDD 2011**

## DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN BRESENNOL A CHYMHAROL

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Deffiniad' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell 'Gwarged neu (Diffyg) ar Ddarpariaeth gwasanaethau' yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Crynodeb Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falens Cronfa'r Cyngor i bwrpasau Trethi Lleol. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd statudol ac wrth gefn eraill yn dangos balans statudol Cronfa'r Cyngor cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd statudol ac wrth gefn eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth Gefn Cronfa'r Cyngor a Glustnodwyd (Nodyn 8)	Balans Cyfrif Refeniw Tai (Nodyn CRT)	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 22)	Balansau Ysgolion (Nodyn 22)	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2009</b>	<b>4,877</b>	<b>11,217</b>	<b>1,781</b>	<b>1,645</b>	<b>3,246</b>	<b>22,766</b>	<b>125,476</b>	<b>148,242</b>
<b>Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn</b>								
Gwarged ar ddarpariaeth gwasanaethau	60	0	492	0	0	552	0	552
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	(67,069)	(67,069)
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>60</b>	<b>0</b>	<b>492</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>552</b>	<b>(67,069)</b>	<b>(66,517)</b>
Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	1,850	0	215	1,280	0	3,345	(3,345)	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>1,910</b>	<b>0</b>	<b>707</b>	<b>1,280</b>	<b>0</b>	<b>3,897</b>	<b>(70,414)</b>	<b>(66,517)</b>
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	(981)	1,082	0	0	(101)	0	0	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Flwyddyn</b>	<b>929</b>	<b>1,082</b>	<b>707</b>	<b>1,280</b>	<b>(101)</b>	<b>3,897</b>	<b>(70,414)</b>	<b>(66,517)</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>5,806</b>	<b>12,299</b>	<b>2,488</b>	<b>2,925</b>	<b>3,145</b>	<b>26,663</b>	<b>55,062</b>	<b>81,725</b>
<b>Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn</b>								
Gwarged/(Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau	16,072	0	(1,118)	0	0	14,954	0	14,954
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	91,421	91,421
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>16,072</b>	<b>0</b>	<b>(1,118)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>14,954</b>	<b>91,421</b>	<b>106,375</b>
Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	(16,688)	0	(1,115)	(2,925)	0	(20,728)	20,728	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>(616)</b>	<b>0</b>	<b>(2,233)</b>	<b>(2,925)</b>	<b>0</b>	<b>(5,774)</b>	<b>112,149</b>	<b>106,375</b>
Trosglwyddiadau i / (o) Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	1,553	(654)	0	0	(899)	0	0	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Flwyddyn</b>	<b>937</b>	<b>(654)</b>	<b>(2,233)</b>	<b>(2,925)</b>	<b>(899)</b>	<b>(5,774)</b>	<b>112,149</b>	<b>106,375</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2011</b>	<b>6,743</b>	<b>11,645</b>	<b>255</b>	<b>0</b>	<b>2,246</b>	<b>20,889</b>	<b>167,211</b>	<b>188,100</b>



## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2011

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethiant. Mae Awdurdodau'n yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

2010/11			2009/10			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£000	£000	£000		£000	£000	£000
6,408	(5,737)	671		6,025	(4,813)	1,212
11,584	(3,425)	8,159		10,644	(4,652)	5,992
71,449	(13,697)	57,752		60,405	(12,317)	48,088
16,624	(4,561)	12,063		14,253	(3,931)	10,322
6,019	(11,891)	(5,872)		13,061	(11,671)	1,390
21,592	(19,094)	2,498		28,180	(17,439)	10,741
32,391	(11,720)	20,671		30,914	(11,753)	19,161
9,355	(4,879)	4,476		5,924	(3,620)	2,304
12,505	(2,348)	10,157		13,788	(4,203)	9,585
9,859	(3,318)	6,541		5,359	(882)	4,477
(22,885)	0	(22,885)		327	0	327
<b>174,901</b>	<b>(80,670)</b>	<b>94,231</b>		<b>188,880</b>	<b>(75,281)</b>	<b>113,599</b>
		21,519	Gwariant Gweithredol Arall	9		9,678
		7,780	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	10		10,794
		(138,484)	Incwm Grant Trethi ac Amhenodol	11		(134,623)
		<b>(14,954)</b>	<b>Gwarged ar ddarpariaeth gwasanaethau</b>			<b>(552)</b>
		(22,765)	(Gwarged) neu Ddiffyg yn deillio o ailbriso asedau nad ydynt yn gyfredol	12		151
		0	(Gwarged) neu Ddiffyg yn deillio o ailbriso asedau sydd ar gael i'w gwerthu	23		812
		(68,656)	(Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn	40		66,106
		<b>(91,421)</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall</b>			<b>67,069</b>
		<b>(106,375)</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>			<b>66,517</b>

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2011

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r Cronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn deffiniad, h.y. y Cronfeydd wrth Gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn destun i'r angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw derfynau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbynion Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf i dalu dyledion yn unig). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfeydd wrth Gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbriso wrth Gefn) ble dim ond ar ôl gwerthu'r asedau y byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

	Nodyn	31/03/11 £000	31/03/10 £000	01/04/09 £000
Eiddo, Offer a Chyfarpar	12	303,887	284,036	279,130
Eiddo Buddsoddiad	13	7,874	7,471	7,611
Asedau Anniriaethol	14	77	161	172
Buddsoddiadau tymor hir	15	0	1	5,265
Dyledwyr tymor hir	17	450	475	276
<b>Asedau tymor hir</b>		<b>312,288</b>	<b>292,144</b>	<b>292,454</b>
Buddsoddiadau tymor byr	15	25,126	15,741	13,345
Rhestrau stoc	16	499	423	384
Dyledwyr tymor byr	17	19,530	25,989	21,268
Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian	18	9,457	8,153	7,110
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	19	514	0	0
<b>Asedau Presennol</b>		<b>55,126</b>	<b>50,306</b>	<b>42,107</b>
Benthycu Tymor Byr	15	(8,289)	(1,727)	(1,610)
Credydwyr Tymor Byr	20	(22,363)	(21,848)	(21,868)
Darpariaethau	21	(1,072)	(94)	(842)
Derbynion grant ymlaen llaw	33	(502)	(667)	(230)
<b>Rhwymedigaethau presennol</b>		<b>(32,226)</b>	<b>(24,336)</b>	<b>(24,550)</b>
Credydwyr Tymor Hir	20	(3)	(4)	(6)
Darpariaethau	21	(4,410)	(2,886)	(2,615)
Benthycu Tymor Hir	15/33	(96,103)	(97,608)	(90,115)
Rhwymedigaethau Tymor Hir eraill	40	(46,572)	(135,891)	(69,033)
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>		<b>(147,088)</b>	<b>(236,389)</b>	<b>(161,769)</b>
<b>Asedau Net</b>		<b>188,100</b>	<b>81,725</b>	<b>148,242</b>
Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad		20,889	26,663	22,766
Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio	23	167,211	55,062	125,476
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn</b>		<b>188,100</b>	<b>81,725</b>	<b>148,242</b>

**DATGANIAD LLIF ARIAN – 2010/11**

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chyfwertioedd Arian yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn gweithredu a defnyddio Arian Parod a Chyfwertioedd Arian trwy ddsbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a gyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau mae'r all-lif arian wedi eu gwneud am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

2010/11 £000		Nodyn	2009/10 £000
<b>14,954</b>	<b>Gwarged Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</b>		<b>552</b>
10,838	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	24	12,874
(14,311)	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	24	(13,807)
<b>11,481</b>	<b>Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu</b>		<b>(381)</b>
<b>(15,170)</b>	<b>Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi</b>	25	<b>(6,076)</b>
<b>4,993</b>	<b>Llif arian net o Weithgareddau Cyllido</b>	26	<b>7,500</b>
<b>1,304</b>	<b>Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chyfwertioedd Arian</b>		<b>1,043</b>
8,153	Arian Parod a Chyfwertioedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol	18	7,110
<b>9,457</b>	<b>Arian Parod a Chyfwertioedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol</b>	18	<b>8,153</b>

## **NODIADAU AR GYFRIFON**

### **NODYN 1 - DATGANIAD O BOLISIÀU CYFRIFO**

#### **1. Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2010/11 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2011. Mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y cawsant eu diwygio), a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw'r Còd Ymddygiad ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 a'r Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau 2010/11, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol - SAARH).

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbriso rhai categorïau penodol o Asedau nad ydynt yn Gyffredol, ac offerynnau cyllidol.

#### **2. Crynhoi Incwm a Gwariant**

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid yn unig pryd y gwneir neu bryd y derbynnir taliadau arian parod. Yn arbennig:

- Mae'r refeniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddion perchenogaeth i'r prynwr a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn medru mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn a gwblhawyd a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwllch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio; cânt eu cludo fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud.
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sy'n cael ei dalu ar fenthyciadau'n cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract.
- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

### **3. Caffael Gweithrediadau a rhai y rhoddwyd y gorau iddynt**

#### **Caffael gweithrediadau**

Nid yw'r Awdurdod wedi caffael unrhyw weithrediad yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

#### **Rhoi'r Gorau i Weithrediadau**

Mae canlyniadau gweithrediadau y rhoddwyd y gorau iddynt yn cael eu nodi fel un swm ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, sef elw neu golled gweithrediadau y rhoddwyd y gorau iddynt a'r enillion neu'r colledion a gydnabuwyd un ai wrth fesur yn ôl gwerth teg gan dynnu costau gwerthu neu wrth gael gwared â'r gweithrediadau y rhoddwyd y gorau iddynt. Mae gweithrediad y rhoddwyd y gorau iddo'n uned cynhyrchu arian parod neu grŵp o'r cyfryw unedau ac y rhoddwyd y gorau iddo/iddynt neu fel arall dan gategori rhywbeth sy'n cael ei ddal gyda golwg ar werthu. Gweler Nodyn 28 am fwy o wybodaeth.

### **4. Arian Parod a'i Gyfwerth**

Mae arian parod yn cynnwys holl falensau credyd a gorddrafftiau banc y mae'r awdurdod yn eu dal fel rhan o'i waith rheoli arian parod cyffredin, a chan gynnwys yr holl gyfrifon adneuol y mae modd eu defnyddio heb gyflwyno rhybudd.

Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr, hynod o hylifol y mae modd eu troi'n symiau sicr o arian parod ac sy'n wynebu risg fechan iawn yn unig o ran newid yn eu gwerth. Mae cywerthoedd arian parod yn cynnwys buddsoddiadau gyda chyfnod aeddfedu penodedig o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael ac asedau sydd ar gael i'w gwerthu, megis arian parod a roddwyd mewn cronfeydd y farchnad arian.

### **5. Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol**

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol;
- Colledion ailbrisiu ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Cyfrif Ailbrisiu Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn;
- Amorteiddio asedau anniriaethol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Awdurdod godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbrisiu neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a glandrir ar sail bwylllog ac a bennir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddiadau statudol.

Felly yn lle colledion dibrisiant, ailbrisiu ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falens Cronfa'r Cyngor trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

## **6. Buddiannau'r Gweithwyr**

### **Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth**

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *mewn lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r ffigwr gronnus yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y cyflogai yn cymryd y budd. Codir y ffigwr gronnus yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrddroi trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn referniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Awdurdod yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini na chânt eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

### **Buddiannau Terfynu**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Craidd corfforaethol a democrataidd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar godi o falens Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a glendir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### **Buddiannau ôl Gyflogaeth**

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

### **Cynllun Pensiwn Athrawon**

Fodd bynnag, oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Adran Addysg yn y flwyddyn.

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y fantolen yn ôl dull actiwarial gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr ayyb. a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.
- Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt (yn seiliedig ar raddfa dychwelant awgrymiadol ar fondiau corfforaethol o safon uchel fel sydd wedi ei fesur gan gynnyrch ar ibox Sterling Corporate Index AA dros 15 mlynedd).
- Mae asedau Cronfa Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
  - Stociau a ddyfynnir - pris bid bresennol
  - Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - Stociau uned - cyfartaledd cyfraddau'r bidiau a'r cynigion
  - Eiddo - gwerth ar y farchnad

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:

- costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei glustnodi i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt;
- costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol - debyd i Swrplws neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
- costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheini symud blwyddyn yn nes i gael eu talu - debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- dychweliad a ddisgwylir ar asedau - y dychweliad buddsoddol blynyddol ar asedau'r gronfa a briodolir i'r Cyngor, yn seiliedig ar gyfartaledd o'r dychweliad disgwylidig yn y tymor hir - credyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- enillion/colledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Awdurdod o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau cronus i weithwyr – debyd neu gredyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
- enillion a cholledion actiwarial - newidiadau yn y rhwymedigaethau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau yn y prisiad actiwarial diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – debyd / (credyd) i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn;
- cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Pensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Yng nghyswllt buddion ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn ar falens Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifeg gysylltiedig. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, golyga hyn fod cyllid yn mynd i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn ac o'r Gronfa, er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeoliad a chael yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath a oedd yn daladwy ond na thalwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o fod angen rhoi cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

### **Buddiannau Dewisol**

Yn ogystal mae gan y Cyngor rai pwerau i dalu buddion ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## **7. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau;
- y rheini sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau - sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi - yn y Datganiad Cyfrifon.

## **8. Offerynnau Ariannol**

### **Atebolrwydd ariannol**

Mae atebolrwydd ariannol yn cael ei gydnabod yn y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol a chânt eu mesur, yn y lle cyntaf, yn ôl gwerth teg ac wedyn cânt eu cludo yn eu cost lai amorteiddio cronedig. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog taladwy yn seiliedig ar swm yr atebolrwydd a gludir, wedi ei luosogi gan y gyfradd log mewn grym ar y pryd i'r offeryn. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronnus); a'r llog a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycia.



Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu rhoddi mewn credyd neu mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu yn digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthycia yng nghyswllt diwygio neu ffeirio'r offerynnau presennol, yna mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu at y gost lai amorteiddio cronedig y benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'r cofnod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei daenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log gweithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu taenu, dros flynyddoedd y dyfodol, unrhyw effaith ar Falens Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Awdurdod yw taenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu bryd yr oedd y disgownt yn cael ei dderbyn pan ad-dalwyd. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falens Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Diwygio Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### **Asedau ariannol**

Dosberthir asedau ariannol i ddau fath:

- benthyciadau a derbynyddion posib - asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol;
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris marchnad dyfynedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy.

### **Benthyciadau a derbynyddion posib**

Cydnabyddir benthyciadau a derbynyddion posib ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur ar werth teg. Wedi hynny cânt eu mesur yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cludadwy ased wedi ei luosi gan y raddfa log perthnasol i'r offeryn. Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd heb ei glirio ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar beth a ddigwyddodd yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer derbynyddion sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cludadwy a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### **Asedau sydd ar gael i'w gwerthu**

Cydnabyddir asedau sydd ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur a'u cludo ar werth teg. Pan fo gan ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar gost lai amorteiddio cronodig yr ased wedi ei luosi gan y raddfa log perthnasol i'r offeryn. Ble nad oes unrhyw daliadau sefydlog na rhai y mae modd eu pennu, mae incwm (e.e. difidendau) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan ddaw'n dderbyniadwy gan yr Awdurdod.

Cedwir yr asedau yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- offerynnau gyda phrisiau a nodir ar y farchnad - pris y farchnad;
- offerynnau eraill gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu – dadansoddiad o'r llif arian ar ôl disgownt;
- cyfrannau ecwiti heb brisiau wedi eu nodi ar y farchnad - asesiad annibynnol o werth y cwmni.

I gydnabod unrhyw newidiadau yn y gwerth teg, rhoddir cofnod yn y Gronfa Wrth Gefn ar Gael i'w Gwerthu a bydd cydnabyddiaeth i'r enillion/colledion yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ailbrisiant Asedau Ariannol Ar Gael i'w Gwerthu. Y mae eithriad - sef pan ddigwyddo colledion amhariad - rhoddir y rhain mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw golledion/enillion net i'r ased a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Wrth Gefn Ar Gael i'w Gwerthu.

Pan nodir fod asedau yn wynebu amhariad oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd y taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno (taliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu),neu pan fo gwerth teg yn gostwng o dan y gost, nodir gostyngiad i'r ased a chodir am hynny yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cludadwy a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol. Fel arall, mesurir y golled amhariad fel unrhyw ddiffyg gwerth teg yn erbyn costau caffael yr offeryn (net o unrhyw ad-daliad swm gwreiddiol ac amorteiddiad).

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n digwydd yn sgil dadgydnabod yr ased yn cael eu gosod mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw enillion/colledion cronus a gafodd eu cydnabod cyn hynny yn y Gronfa Wrth Gefn ar gael i'w Gwerthu.

Onid oes modd mesur y gwerth teg mewn ffordd ddibynadwy, mae'r offeryn yn cael ei gludo yn ôl cost (a thynnu ohono unrhyw golledion amhariad).

## 9. Grantiau y Gellir eu Derbyn

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a dderbyniwyd mewn ffurf grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cludo yn y Fantolen fel credydwyd. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn llinell berthnasol y gwasanaeth (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn - Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

## 10. Asedau Anniriaethol

Mae gwariannau ar asedau anniriaethol sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan y corff oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (ee. Trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(-au) y gwasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased - mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(-au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased anniriaethol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau enillion a cholledion gael effaith ar Falens Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynyion Cyfalaf.

#### **11. Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill**

Nid oes gan y Cyngor fuddiannau perthnasol mewn cwmnïau nac endidau eraill sydd o natur is-gwmnïau, cymdeithion, ac endidau a reolir ar y cyd, ac felly nid oes gofyn iddo baratoi cyfrifon grŵp.

#### **12. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir**

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sy yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

#### **13. Llog Mewnol**

Buddsoddir balansau arian gan yr Awdurdod yn unol â'i Bolisiâu Rheoli Trysorlys a Buddsoddi, am gyfnodau o hyd at bum mlynedd ac fe gronnir a chredydir yr incwm i Gronfa'r Cyngor. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chyfrifon trydydd parti eraill ar sail y raddfa log a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai Cronfeydd wrth Gefn hefyd yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

#### **14. Eiddo buddsoddiad**

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. 'Dyw'r diffiniad ddim yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae Eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd fraich. 'Dyw eiddo ddim yn cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbriso'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen (diwedd y flwyddyn). Mae enillion a cholledion adeg ailbriso'n cael eu symud i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am Eiddo buddsoddiad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisio a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falens Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynnion Cyfalaf.

### **15. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Awdurdod ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrwy'r yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil y gwaith.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer a chyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan yr Awdurdod a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwy'r. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau'r â iddynt ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

### **16. Prydlesau**

Mae prydlesau'n cael eu categoreiddio fel Prydlesau Ariannol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo, i bob pwrpas, o'r prydleswr i'r prydlesau'r holl risgiau a'r holl fendithion sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog yr eiddo, yr offer neu'r cyfarpar. Categoreiddir yr holl brydlesau eraill fel Prydlesau Gweithredol.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i bwrpas categoreiddio.

Pan fo trefniadau heb statws cyfreithiol prydles, ond er hynny'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad, yna mae cyfrif amdanynt dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

### **Yr Awdurdod fel Daliwr Prydles**

#### **Prydlesau Ariannol**

Mae eiddo, offer a chyfarpar sy'n cael eu dal dan Brydlesau Ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl gwerth teg a fesurir adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles leiaf bosib, pa un bynnag o'r ddau sydd isaf). Gyda'r ased a gydnabyddir mai cyfrifoldeb cyfatebol i dalu i'r prydlesydd. Mae costau uniongyrchol cychwynol yr Awdurdod yn cael eu hychwanegu at y swm y mae'r ased yn ei gludo. Defnyddir y taliadau a wneir adeg gwneud prydles i nodi'r atebolrwydd sydd ynghlwm wrth y brydles. Codir am rent dilynol fel treuliau yn y cyfnodau hynny pryd y digwyddant.

Rhennir y taliadau prydles rhwng:

- tâl am brynu budd yn yr eiddo, offer a chyfarpar - defnyddir hwn i nodi i lawr beth yw atebolrwydd y brydles, a
- tâl ariannol (mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Cedwir cyfrif am eiddo, offer a chyfarpar a gydnabyddir dan Brydlesau Ariannol trwy ddefnyddio'r polisïau hynny a ddefnyddir yn gyffredin yng nghyswllt asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y brydles os ydyw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach na'r amcangyfrif i oes ddefnyddiol yr ased (pan fo perchnogaeth yr ased ddim yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol ar i'r Awdurdod godi treth gyngor i gynnwys dibrisiant neu ailbrisiant a cholledion amhariad sy'n deillio o asedau a brydleswyd. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol gochelgar o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly mae cyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor yn cymryd lle dibrisiant ac ailbriso a cholledion amhariad, trwy addasu trafodyn gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### **Prydlesau Gweithredol**

Mae rhenti a delir dan Brydlesau Gweithredol yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul i'r gwasanaethau sy'n cael y budd o eiddo, offer a chyfarpar prydles. Codir y taliadau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. mae cyfnod di-rent ar gychwyn y brydles).

### **Yr Awdurdod fel Prydleswr**

#### **Prydlesau Ariannol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, dilëir yr ased perthnasol o'r Fantolen fel gwarediad. Ar gychwyn y brydles, mae swm cludadwy'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Ased sy'n Cael ei Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad. Mae enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, yn cael ei gredu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad (h.y. ei ddebydu yn erbyn gwerth cludadwy'r ased adeg ei waredu), yn cydweddu gydag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen.

Dyrennir prydlesau rhent rhwng:

- taliad am gaffael y budd yn yr eiddo – defnyddir i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw bremiwm a dderbyniwyd), ac
- incwm ariannol (credydir i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir yn ôl statud i'r enilliaid a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar warediad gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae'n ofynnol iddo gael ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi ei dderbyn, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falens Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan fo'r swm sy'n ddyledus yng nghyswllt yr ased prydles i'w setlo trwy dalu rhenti ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falens Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan dderbynnir rhenti yn y dyfodol, defnyddir yr elfen derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilêir o warediadau'n cael ei godi ar y dreth gyngor, gan y darperir yn llawn ar gyfer cost asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly mae'r symiau hyn yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### **Prydlesau Gweithredol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o eiddo neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cludadwy'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

### **17. Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor godi darpariaeth ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer adbryniant dyled. Y mae hwn yn cael ei leihau gan swm y tâl dibrisiant a wnaethpwyd eisoes i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i adael y MRP net y gellir ei godi ar Gronfa'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi seilio darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT agoriadol.

Mae darpariaeth Cronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar 4% o'r CFR Nad yw'n-CRT hyd at 2007/08, yn unol â'r Rheoliadau a weithredwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Disodlwyd y rheoliadau hyn gan system MRP mwy hyblyg wedi ei seilio ar ganllawiau statudol. Mabwysiadwyd polisi newydd o 2008/09 ymlaen er mwyn galluogi codi ar Gronfa'r Cyngor yr asedau hynny a gyllidwyd o fenthyciadau di-gefnoogaeth, yn unol â rhyw ddull priodol fel oes yr ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio'r MRP hyd nes y comisiynir yr ased.

Mae'n ofynnol ar i wariant yr aethpwyd iddo hyd at 2003/04 dan Adran 40(6) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 gael ei amorteiddio dros 7 mlynedd, yn hytrach na chael ei wneud yn destun i'r cyfrifiad MRP 4%.

## **18. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol**

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheini sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA) Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau 2010/11 (BVACOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau'n gysylltiedig â statws yr Awdurdod fel sefydliad aml swyddogaethol, democrataidd.
- Costau heb eu Dosbarthu - costau buddiannau dewisol a rhoddir i weithwyr yn ymdeol yn gynnar a cholledion amhariad i'w codi ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn BVACOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau sy'n Parhau.

## **19. Addasiadau Cyn Cyfnod, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau**

Gall Addasiadau Cyn Cyfnod ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

2010/11 yw'r flwyddyn gyntaf i gyfrifon awdurdod lleol gael eu darparu ar sail SAARH, fel y'i mabwysiadwyd a'i addasu fel sy'n ofynnol gan y Côt. Mae angen nifer o newidiadau mewn polisi cyfrifo o ganlyniad i symud o Egwyddorion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU wedi eu seilio ar y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP) i'r Côt sy'n seiliedig ar yr SAARH:

- Cyfrifo am Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu a gweithrediadau a derfynwyd
- Cyfrifo ar gyfer grantiau a chyfraniadau cyfalaf
- Cyfrifo colledion amhariad
- Diffiniad o arian parod a'i gyfwerth
- Elfen cyfrifo ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar (defnydd ôl-weithredol yn unig)
- Cronni buddiannau gweithwyr
- Dosbarthiadau prydles
- Dosbarthu dyledwyr, credydwyr a darpariaethau tymor byr a hir

Eglurir natur ac effaith y newidiadau hyn ymhellach yn Nodyn 2 i'r datganiadau ariannol craidd.



Cyfrifyddir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol h.y. am eleni a blynyddoedd y dyfodol pryd y bydd y newid yn cael effaith arnynt, nid oes addasiad cyfnod blaenorol. Mae newid mewn amcangyfrifon cyfrifo ar gyfer 2010/11 am newid yn y dull prisio Cost Amnewid Dibrisiedig i Gost Amnewid Dibrisiedig Adeiladu'n Syth, sy'n golygu fod prisiadau eiddo arbenigol yn awr yn cael eu clandro gan gymryd yn ganiataol y byddai'r eiddo'n cael ei adeiladu'n syth, ac nad oes cyfnod adeiladu y cynhwysir costau cyfalaf drosto.

Hefyd mae newid amcangyfrifedig ar gyfer datganid Canghellor y Trysorlys yn y Gyllideb Frys ar 22 Mehefin 2010 pan ddywedodd mai'r mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu (RPI) fydd y sail ar gyfer cynnydd pensiwn y sector cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd hyn yn lleihau gwerth rhwymedigaethau Safonau Adrodd Rhyngwladol 19 (IAS19) y cyflogwr a diffyg Mantolen IAS19, sydd yn cynhyrchu cynydd sylweddol yn y CIES yn 2010/11.

Mae camgymeriadau perthnasol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## **20. Eiddo, Offer a Chyfarpar**

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

### **Cydnabyddiaeth**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd.

### **Mesur**

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr;
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnod, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- anheddau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- pob ased arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu.

Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronus);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falens annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

## **Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i amser yn mynd yn ei flaen neu ddefnydd cyffredin) yn swm cludadwy ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o anarferiant neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan yr awdurdod i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r awdurdod yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falens annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod.

### **Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad a rhai Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr;
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 10 mlynedd, gan ddibynnu ar werth cychwynnol yr ased;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros 40 mlynedd.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

### **Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu**

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Dal i'w Werthu. Mae'r ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei ailbrisiio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Os nad yw asedau (neu grŵp gwaredu) bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w werthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Werthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

'Grŵp gwaredu' yw grŵp o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r awdurdod gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail fesur sy'n ofynnol ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddosberthir fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu i'r grŵp cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cludadwy'r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y grŵp gwaredu yn y drefn ddosbarthu sy'n ofynnol gan IAS 36.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbynyddion cyfalaf. Rhoddir i'r neilltu yn wirfoddol cyfran o dderbyniadau yn ymwneud â gwaredu tai er mwyn lleihau'r angen i fenthycu ac i gyfateb a threuliau dyled a gyllidir o gymhorthdal tai. Mae'n ofynnol ar i'r derbynyddion cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbynyddion Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthycu (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

## **21. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r Awdurdod, sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth potensial, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwyrdroir y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o ddarpariaethau i gwrdd â rhwymedigaethau a ddisgwylir ym mlynnyddoedd y dyfodol ond heb sicrwydd pa bryd na faint yn union fydd symiau'r rheini. Codir nhw ar gost net y gwasanaethau yn y flwyddyn honno y cânt eu cydnabod ynddi. Pan wneir y taliadau cânt eu codi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth honno.

### **Rhwymedigaethau wrth gefn**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib i'r awdurdod, ond ni cheir cadarnhad iddi hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### **Asedau wrth gefn**

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad iddo hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

## **22. Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Crëir Cronfeydd wrth Gefn trwy dynnu symiau o Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddion ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisiâu perthnasol.

### **23. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)**

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycia, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falens Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel treth y cyngor.

### **24. Cydnabyddiaeth refeniw**

Mae'r polisi cydnabod refeniw yn ymwneud â gwerthu nwyddau (a gynhyrchir gan yr Awdurdod i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), cynnig gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau y mae a wnelont yn uniongyrchol â chontractau), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y dreth gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Fodd bynnag, os ydyw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei chydnabod, yn y lle cyntaf, yn ôl y pris Cywerthoedd Arian. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg wrth ddarparu'r gwasanaethau. Mae derbynyddion tymor byr heb log dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol os ydyw effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y dreth gyngor a threthi cyffredinol, ac felly mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

### **25. Treth ar Werth (TAW)**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## **NODYN 2 – SAFONAU CYFRIFEG A GYHOEDDWDYD OND NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU**

Yn 2010/11 mae'r unig newid mewn safonau cyfrifeg a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu yn ymwneud â Safonau Adrodd Ariannol 30 (FRS 30) *Asedau Treftadaeth*.

### **Asedau Treftadaeth**

Bydd mabwysiadu FRS 30 Asedau Treftadaeth gan y Côt yn arwain at newid mewn polisi cyfrifeg o 2011/12 ymlaen a bydd Asedau Treftadaeth yn cael eu cydnabod fel dosbarth ar wahân o asedau am y tro cyntaf yn natganiadau ariannol 2011/12.

Mae angen cario Asedau Treftadaeth ar brisiad heblaw nad yw hi'n ymarferol i gael prisiad am gost sy'n gymesur i'r buddiannau i ddefnyddwyr, yn yr achos yma bydd yr asedau yn cael ei chario ar gost hanesyddol.

Mae'r Cyngor wedi cynnwys ei gasgliad celf o fewn y datganiad asedau nad ydynt yn gyfredol, dan Asedau Cymunedol. Mae hwn yn cael ei gario ar gost a bydd angen ail-gategoreiddio a'i adolygu'n unol â'r uchod yn 2011/12.

Ac eithrio'r casgliad celf y cyfeirir ato uchod, nid yw datganiadau ariannol 2010/11 yn cynnwys unrhyw asedau y disgwyli'r iddynt gael eu hailddosbarthu'n Asedau Treftadaeth yn 2011/12, ac nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd effaith sylweddol ar ei ddatganiadau ariannol o ganlyniad i fabwysiadu FRS 30.

## **NODYN 3 - BARN FEIRNIADOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO**

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth i'w gario'r asedau a rhwymedigaethau nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill ac sy'n cael eu hystyried yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio wedi hynny oddi wrth yr amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

Y barnau beirniadol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon yw:

Mae gan yr awdurdod £304m a adnabyddir fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2011. Ymgwymerir yr awdurdod prisiadau ffurfiol o'i Eiddo, Offer a Chyfarpar drwy raglen pum mlynedd. Ymgwymerir y prisiadau yma gan dîm prisio mewnol yr Awdurdod, sy'n aelodau o'r Sefydliad Brenhinol o Syrfewyr Siartredig (RICS). Nid yw'r asedau nad ydynt yn eiddo wedi ei hailbriso canfod yr Awdurdod o'r farn fod cludo eu pris yn gymharol werth teg, o ystyried eu hoes economaidd ddefnyddiol gymharol fach a gwerth perthnasol yr asedau yma.

## **NODYN 4 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2011 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

**Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 12.

**Tai Cyngor** - Mae Tai Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu, i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei gyhoeddi ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 31%. Mae papur ymchwil diweddar wedi nodi ffactor dros dro 39% ar gyfer Gogledd a Gogledd - Orllewin Cymru, ond bydd angen ymgynghoriad a chadarnhad pellach cyn gellir defnyddio'r ffactor yma. Os byddai'r ffactor yma yn cael ei gadarnhau mi fuasai yn cynhyrchu cynnydd mewn gwerth Tai Cyngor o oddeutu £28m.

**Darpariaethau** – Mae nifer o ddarpariaethau ar wahân, ble mae'r sail unigol wedi cael ei hasesu, wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn, gweler Nodyn 21 am y manylion.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr actiwari a benodwyd gan yr awdurdod gweinyddu. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 39 a 40.

**Amhariad Dyledion Drwg / Darpariaeth** - Mae lefel benodol o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon, wedi ei seilio ar bolisi penodol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 17.



## **NODYN 5 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT**

Nid oes unrhyw eitemau o incwm neu wariant materol nad ydynt wedi eu datgelu rhywle arall yn y cyfrifon hyn.

## **NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Swyddog Cyllid 151 dros dro ar 8fed Tachwedd 2011.

Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2011, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi ei haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

**NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN REOLIAD**

2010/11	Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad			
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio
	£000	£000	£000	£000
<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:</b>				
<b><u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol	6,976	2,765	0	(9,741)
Ailbrisiant colledion / (enillion) ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	5,894	(5,314)	0	(580)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad	(543)	0	0	543
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	(9,852)	(40)	0	9,892
Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud	3,744	0	0	(3,744)
Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd	3,536	8,989	0	(12,525)
Gwrthdroi Lwfans Atgyweiriadau Mawr a gredydir i'r CRT	0	(2,600)	0	2,600
<b><u>Gosod eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>				
Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Ariannu Cyfalaf	(3,529)	(520)	0	4,049
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT	(755)	(3,948)	0	4,703
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</u></b>				
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	(4,528)	4,528
Elw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol	(1,449)	(370)	1,819	0
Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddu gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	11	(11)	0
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a osodwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion.	0	0	(205)	205
<b><u>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</u></b>				
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	110	25	0	(135)
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:</u></b>				
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddion ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 40)	(12,506)	0	0	12,506
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	(8,046)	(111)	0	8,157
<b><u>Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol</u></b>				
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr	(268)	(2)	0	270
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>(16,688)</b>	<b>(1,115)</b>	<b>(2,925)</b>	<b>20,728</b>

2009/10	Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad			
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio £000
	£000	£000	£000	£000
<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:</b>				
<b><u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol	6,103	2,459	0	(8,562)
Ailbrisiant colledion / (enillion) ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	3,779	2,748	0	(6,527)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad	478	0	0	(478)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	(8,601)	0	0	8,601
Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud	2,595	0	0	(2,595)
Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd	1,255	167	0	(1,422)
Gwrthdroi Lwfans Atgyweiriadau Mawr a gredydir i'r CRT	0	(2,600)	0	2,600
<b><u>Gosod eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>				
Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Ariannu Cyfalaf	(3,004)	(260)	0	3,264
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT	(325)	(1,994)	0	2,319
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</u></b>				
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	(291)	291
Elw o werthiant o asedau nad ydynt yn gyfredol	(1,462)	(285)	1,747	0
Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddu gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	13	(13)	0
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a osodwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion.	0	0	(163)	163
<b><u>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</u></b>				
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol.	113	21	0	(134)
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:</u></b>				
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddion ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 40)	8,801	52	0	(8,853)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	(7,993)	(109)	0	8,102
<b><u>Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol</u></b>				
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr	111	3	0	(114)
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>1,850</b>	<b>215</b>	<b>1,280</b>	<b>(3,345)</b>

**NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I/O GRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD**

	Balans ar 01/04/09 £000	Trosglwyddiadau Mewn 2009/10 £000	Trosglwyddiadau Allan 2009/10 £000	Balans ar 31/03/10 £000	Trosglwyddiadau Mewn 10/11 £000	Trosglwyddiadau Allan 2010/11 £000	Balans ar 31/03/11 £000
<b>Cronfa'r Cyngor:</b>							
Gwariant cyfalaf	1,149	350	0	1,499	273	(784)	988
Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn	30	856	0	886	0	0	886
Digwyddiadau Anaml	9	3	0	12	9	0	21
Pryniannau i'r amgueddfa	10	5	0	15	0	(4)	11
Cronfa wrth Gefn Gwelliannau Hamdden	419	0	(4)	415	0	0	415
Diwrnodiau Ysgol	(4)	0	(23)	(27)	0	(18)	(45)
Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Cyfyngedig	2,189	0	(575)	1,614	2,843	(2,539)	1,918
Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau	747	180	0	927	583	(177)	1,333
Cronfa wrth Gefn Gwasanaethau Tân	102	0	(102)	0	0	0	0
Uned Cynnal a Chadw Adeiladau	190	0	(104)	86	15	(8)	93
Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi	1,878	467	0	2,345	152	(1,275)	1,222
Adran 117 (Deddf Iechyd Meddwl 1983)	327	0	0	327	0	(28)	299
Ailgylchu	955	0	0	955	206	0	1,161
Cronfa wrth Gefn Rheoli Risg	71	0	(9)	62	0	(34)	28
Cronfa wrth Gefn Rheoli Perfformiad	1,317	40	0	1,357	130	(317)	1,170
Ysgodiad Tyfiant Busnes Awdurdod Lleol (LABGI)	118	0	(118)	0	0	0	0
Cronfa Yswiriant	1,710	116	0	1,826	319	0	2,145
<b>Cyfanswm Cronfa'r Cyngor</b>	<b>11,217</b>	<b>2,017</b>	<b>(935)</b>	<b>12,299</b>	<b>4,530</b>	<b>(5,184)</b>	<b>11,645</b>
<b>CRT</b>	<b>1,781</b>	<b>707</b>	<b>0</b>	<b>2,488</b>	<b>0</b>	<b>(2,233)</b>	<b>255</b>
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>12,998</b>	<b>2,724</b>	<b>(935)</b>	<b>14,787</b>	<b>4,530</b>	<b>(7,417)</b>	<b>11,900</b>

## **Pwrpas Cronfeydd Refeniw wrth Gefn a Glustnodwyd**

**Gwariant cyfalaf** – i ariannu gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Crëwyd hwn i sicrhau bod gwariant cyfalaf ymrwymedig, yn cynnwys gwariant sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, yn cael ei gyllido'n llawn.

**Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn** – Crëwyd y gronfa wrth gefn hon o asedau arian parod net, llai costau dirwyn i ben a chapio, Cwmni Gwastraff Môn Arfon Cyf sydd yn y broses o'i ddirwyn i ben. Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyfrannu tuag at unrhyw rwymedigaethau i'r dyfodol sy'n deillio o reolaeth safle Penhesgyn.

**Digwyddiadau Anaml** – i ganiatáu i'r Cyngor wastatau o flwyddyn i flwyddyn y gost o wneud cyfraniadau i ddigwyddiadau sy'n digwydd yn llai aml na blynyddol.

**Pryniannau i'r amgueddfa** – rhoddion a glustnodwyd a chyllid arall i ariannu gwariant Oriel Ynys Môn i'r dyfodol.

**Cronfa wrth Gefn Gwelliannau Hamdden** - i ariannu gwariant cyfalaf ar welliannau i, a darpariaeth, cyfleusterau hamdden strategol.

**Diwrnodiau Ysgol** – i hafalu costau'r nifer amrywiol o Ddiwrnodiau Ysgol ym mhob blwyddyn ariannol.

**Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau** - dan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor mae dros- a thanwariant yn cael ei gario mlaen fel Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd i'r lefel a osodir gan y Pwyllgor Gwaith.

**Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Cyfyngedig** – cyllidebau a glustnodwyd o fewn meysydd gwasanaeth sy'n parhau heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cronfa wrth Gefn Gwasanaethau Tân** – Dychwelodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru swm i'w awdurdodau cyfansoddol a oedd wedi ei osod o'r neilltu ganddo i'w helpu i reoli amrywiadau mewn costau pensiwn, o ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gostau pensiwn tân i Lywodraeth y DU. Defnyddiwyd hyn yn 2009/10 i gefnogi cyllideb 2009/10.

**Uned Cynnal a Chadw Adeiladau** – i ddarparu balans gweithio. Cronnwyd rhan sylweddol o'r balans hwn dan statws blaenorol yr uned fel Sefydliad Gwasanaeth Uniongyrchol dan ddeddfwriaeth Tendro Cystadleuol Gorfodol. Mae 90% o'r gwarged ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r CRT. Dyrannwyd £120k i'w ddefnyddio yn 2009/10 i gefnogi cyllideb 2009/10.

**Cyflog Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi** - O ganlyniad i'r cytundeb 'Statws Sengl', mae'n ofynnol ar yr Awdurdod, fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, gyflwyno system gyflog a graddau newydd i ddod i rym o 1 Ebrill 2007. Mae'r graddau y bydd hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i ôl gyflog yn ansicr. Mae trafodaethau'n mynd yn eu blaenau ar strwythur cyflog a graddau diwygiedig. Gosodwyd swm o'r neilltu yn y Gronfa wrth Gefn Arfarnu Swyddi tuag at gost gyffredinol yr ymarfer, yn cynnwys costau gweinyddol, cost graddfeydd cyflog newydd, unrhyw ddiogelwch cyflog ac unrhyw ôl gyflog. Er na ellir amcangyfrif elfennau unigol gydag unrhyw radd o sicrwydd, barn yr awdurdod yw bod y symiau a osodwyd o'r neilltu'n ddigonol.

**Adran 117 (Deddf Iechyd Meddwl 1983)** – i ddarparu ar gyfer ad-daliad disgwylidig taliadau a godwyd yn flaenorol ar rai defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

**Ailgylchu** - arbedion costau tirlenwi a grëwyd trwy ddargyfeirio gwastraff i ailgylchu. Bydd y Gronfa wrth Gefn yn cael ei defnyddio tuag at weithgareddau ailgylchu.

**Cronfa wrth Gefn Rheoli Risg** – sefydlwyd y Gronfa wrth Gefn Rheoli Risg er mwyn cynnwys gwaith a wnaethpwyd mewn cydweithrediad ag Yswirwyr y Cyngor yn cynnwys Rheolaeth Risg Gorfforaethol, Parhad Busnes ac Iechyd a Diogelwch.

**Cronfa wrth Gefn Rheoli Perfformiad** – symiau a glustnodwyd tuag ar fesurau gwella perfformiad o'r Grant Ysgogiad Perfformiad.

**Grant Ysgogiad Twf Busnes Awdurdod Lleol (LABGI)** – symiau a dderbyniwyd fel taliad ar gyfrif gan Lywodraeth Cymru dan gynllun Trysorlys y DU i wobrwyo Awdurdodau Lleol am dwf yng ngwerth trethiannol annomestig eu hardal. Dyrannwyd y grant yn rhannol yn 2008/09 ac mae'r balans wedi ei grafangu'n ôl i gefnogi cyllideb 2009/10. Daeth y grant i ben yn 2007/08.

O ganlyniad i fabwysiadu'r polisi cyfrifyddu sy'n ofynnol gan y Côt, diwygiwyd y datganiadau ariannol fel a ganlyn :

- Mae'r balans ar Gyfrif Gohiriedig Grantiau Llywodraeth ar 31 Mawrth 2009 wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar fantolen agoriadol 1 Ebrill 2009;
- Yn flaenorol roedd rhannau o grantiau llywodraeth gohiriwyd yn cael eu cydnabod fel incwm yn 2009/10; mae'r rhain wedi eu symud o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y ffigyrau cymharol.

Nid oes newid ym malans Cronfa'r Cyngor, gan fod incwm grant cyfalaf yn cael ei drosglwyddo allan o Gronfa'r Cyngor dan y polisïau cyfrifo blaenorol a phresennol.

### **Absenoldebau Digolledol Cronnol Byrdymor**

Mae absenoldebau digolledol cronnoel byrdymor yn cyfeirio at y buddiannau mae gweithwyr yn eu derbyn fel rhan o'r contract cyflogaeth, y mae'r hawl iddynt yn adeiladu fel y bônt yn rhoi gwasanaethau i'r Cyngor. Y buddiant mwyaf sylweddol o dan y pennawd hwn yw tâl gwyliau.

Mae gweithwyr yn adeiladu hawl i wyliau â thâl fel y bônt yn gweithio. Dan y Côt, mae cost darparu gwyliau a buddiannau tebyg angen eu cydnabod pan fo gweithwyr yn cyflawni'r gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau digolledol yn y dyfodol. O ganlyniad, mae angen i'r Cyngor gronni unrhyw wyliau blyneddol a enillwyd ond na chymerwyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Dan drefniadau cyfrifo blaenorol, nid oedd angen y fath gronni.

Mae rheoliadau wedi eu cyhoeddi sy'n golygu mai dim ond pan mae tâl gwyliau a buddiannau tebyg yn cael eu defnyddio y mae angen i gynghorau lleol eu hariannu, yn hytrach na phan fo'r gweithwyr yn ennill y buddiannau. Trosglwyddir symiau i'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus hyd nes y defnyddir y buddiannau.

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r gwahaniaethau perthnasol rhwng y symiau a gyflwynwyd yn natganiadau ariannol 2009/10 a'r symiau cyfatebol a gyflwynwyd yn natganiadau ariannol 2010/11.

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

	DATGANIAD CYFRIFON 2009/10			Addasiadau Ailddatgan mewn paratoad ar gyfer SAARH							AILDDATGAN DATGANIAD CYFRIFON 2009/10		
	Gwariant	Incwm	Net	Gweithrediadau Masnachu	Aiddosbarthu asedau nad ydynt yn gyfredol	Buddiannau gweithwyr	Grantiau gohiriedig	Grantiau Cyfalaf	Cywiriad Gwariant CRT	Cywiriad Incwm CRT	Gwariant	Incwm	Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd	6,075	(5,289)	786	0	476	(51)	0	0	0	0	6,024	(4,813)	1,211
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	10,328	(4,652)	5,676	0	53	1	262	0	0	0	10,644	(4,652)	5,992
Gwasanaethau Addysg a Phlant – Addysg	60,215	(12,317)	47,898	(144)	(929)	181	1,083	0	0	0	60,406	(12,317)	48,089
Priffyrdd a Chludiant	12,307	(3,931)	8,376	0	(641)	(48)	2,635	0	0	0	14,253	(3,931)	10,322
Cyfrif Refeniw Tai	24,001	(25,026)	(1,025)	0	(1,511)	3	0	0	(9,432)	13,355	13,061	(11,671)	1,390
Gwasanaethau Tai (Cronfa'r Cyngor)	20,188	(17,414)	2,774	0	7	(1)	11,884	0	(3,898)	(25)	28,180	(17,439)	10,741
Gofal Cymdeithasol Oedolion	32,739	(11,753)	20,986	(1,698)	(349)	25	197	0	0	0	30,914	(11,753)	19,161
Gwasanaethau Cynllunio a datblygu	6,499	(3,828)	2,671	208	(615)	0	40	0	0	0	5,924	(3,620)	2,304
Gwasanaethau Amgylcheddol	13,671	(4,885)	8,786	0	446	0	353	0	0	0	13,788	(4,203)	9,585
Corfforaethol a Democraataidd	4,282	(882)	3,400	0	0	4	1,073	0	0	0	5,359	(882)	4,477
Costau heb eu dyrannu	161	0	161	0	166	0	0	0	0	0	327	0	327
<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>190,466</b>	<b>(89,977)</b>	<b>100,489</b>	<b>(1,634)</b>	<b>(2,897)</b>	<b>114</b>	<b>17,527</b>	<b>0</b>	<b>(13,330)</b>	<b>13,330</b>	<b>188,880</b>	<b>(75,281)</b>	<b>113,599</b>
<u>Gwariant Gweithredol Arall</u>													
Praeseptau ac Ardollau	0	0	9,990	0	0	0	0	0	0	0	0	0	9,990
Enillion/colledion ar warediad asedau nad ydynt yn gyfredol (yn cynnwys Amhariad)	0	0	(640)	0	328	0	0	0	0	0	0	0	(312)
<b>Gwariant Gweithredol Arall</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9,350</b>	<b>0</b>	<b>328</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9,678</b>

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

	DATGANIAD CYFRIFON 2009/10			Addasiadau Ailddatgan mewn paratoad ar gyfer SAARH							AILDDATGAN DATGANIAD CYFRIFON 2009/10		
	Gwariant £000	Incwm £000	Net £000	Prydlesau gweithredol £000	Aiddosbarthu asedau nad ydynt yn gyfredol £000	Buddion gweithwyr £000	Grantiau gohriedig £000	Cyfalaf Grantiau £000	Cywiriad Gwariant CRT £000	Cywiriad Incwm CRT £000	Gwariant £000	Incwm £000	Net £000
<b>Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi</b>													
Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	0	0	5,170	0	0	0	0	0	0	0	0	0	5,170
Llog ac incwm o fuddsoddiadau	0	0	(921)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(921)
Llog costau pensiynau a dychweliad disgwyliedig ar asedau pensiwn	0	0	5,115	0	0	0	0	0	0	0	0	0	5,115
Newidiadau mewn gwerth teg o eiddo buddsoddiad	0	0	0	0	(204)	0	0	0	0	0	0	0	(204)
Enillion/colledion Unedau Masnachu	0	0	0	1,634	0	0	0	0	0	0	0	0	1,634
<b>Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9,364</b>	<b>1,634</b>	<b>(204)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,794</b>
(Gwarged) / Diffyg gweithrediadau sydd wedi dirwyn i ben	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol</b>													
Incwm y Dreth Gyngor	0	0	(29,562)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(29,562)
Trethi Annomestig	0	0	(18,787)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(18,787)
Grantiau Llywodraeth – Refeniw	0	0	(75,073)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(75,073)
Grant Llywodraeth – Cyfalaf	0	0	0	0	0	0	0	(11,201)	0	0	0	0	(11,201)
<b>Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(123,422)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(11,201)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(134,623)</b>
<b>(Gwarged) / Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(4,219)</b>	<b>0</b>	<b>2,773</b>	<b>114</b>	<b>17,527</b>	<b>(11,201)</b>	<b>(13,330)</b>	<b>13,330</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(552)</b>
(Gwarged) / Diffyg yn deillio o ailbriso Asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	0	151	0	0	0	0	0	0	0	151
(Gwarged) / Diffyg yn deillio o ailbriso asedau sydd ar gael i'w gwerthu	0	0	812	0	0	0	0	0	0	0	0	0	812
Enillion / Colledion Actiwaraid ar Asedau / Rhwymedigaethau Pensiwn	0	0	66,106	0	0	0	0	0	0	0	0	0	66,106
<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>66,918</b>	<b>0</b>	<b>151</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>67,069</b>
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>62,699</b>	<b>0</b>	<b>(2,622)</b>	<b>114</b>	<b>17,527</b>	<b>(11,201)</b>	<b>(21,992)</b>	<b>13,330</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>66,517</b>

## Y FANTOLEN AR 31/03/10

	Datganiad Cyfrifon 31/03/10 £000	Aiddosbarthu Asedau £000	Aiddosbarthu Grantiau £000	Buddion gweithwyr £000	Tymor hir / Tymor byr £000	Addasiadau eraill £000	Ailddatgan 31/03/10 £000
<b>Eiddo, Offer a Chyfarpar</b>							
Anheddau Cyngor	95,668	(1,963)	0	0	0	0	93,705
Tir ac Adeiladau eraill	139,287	1,983	0	0	0	0	141,270
Isadeiledd	42,746	456	0	0	0	0	43,202
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar	2,803	436	0	0	0	0	3,239
Asedau Cymunedol	18,121	(17,710)	0	0	0	0	411
Asedau yn cael eu hadeiladu	384	(378)	0	0	0	0	6
Asedau gwarged na ddelir i'w gwerthu	4,759	(2,555)	0	0	0	0	2,204
<b>Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar</b>	<b>303,768</b>	<b>(19,731)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>284,037</b>
Eiddo Buddsoddiad	1,887	5,584	0	0	0	0	7,471
Asedau Anniriaethol	140	21	0	0	0	0	161
Buddsoddiadau tymor hir	1	0	0	0	0	0	1
Dyledwyr tymor hir	475	0	0	0	0	0	475
<b>Cyfanswm Asedau tymor hir</b>	<b>306,271</b>	<b>(14,126)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>292,145</b>
<b>Asedau Presennol</b>							
Rhestrau stoc	423	0	0	0	0	0	423
Dyledwyr tymor byr	25,989	0	0	0	0	0	25,989
Buddsoddiadau tymor byr	15,741	0	0	0	0	0	15,741
Arian Parod a Chyferthoedd Arian	9,109	0	0	0	0	(656)	8,453
<b>Rhwymedigaethau presennol</b>							
Credydwyr	(19,995)	0	667	(1,576)	0	(1,244)	(22,148)
Darpariaethau Tymor Byr	0	0	0	0	(94)	0	(94)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw	0	0	(667)	0	0	0	(667)
Benthyca Tymor Byr	(1,727)	0	0	0	0	0	(1,727)
Gordrafft banc	(1,900)	0	0	0	0	1,900	0
<b>Cyfanswm Asedau Presennol llai</b>	<b>333,911</b>	<b>(14,126)</b>	<b>0</b>	<b>(1,576)</b>	<b>(94)</b>	<b>0</b>	<b>318,115</b>
<b>Rhwymedigaethau</b>							

## Y FANTOLEN AR 31/03/10

	Datganiad Cyfrifon 31/03/10	Ailddosbarthu Asedau	Ailddosbarthu Grantiau	Buddion gweithwyr	Tymor hir / Tymor byr	Addasia dau eraill	Ailddatgan 31/03/10
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>							
Credydwy'r Tymor Hir	0	0	0	0	0	(4)	(4)
Benthyca Tymor Hir	(97,608)	0	0	0	0	0	(97,608)
Darpariaethau	(2,981)	0	0	0	94	0	(2,887)
Grantiau Llywodraeth Gohiriedig	(63,249)	0	63,245	0	0	4	0
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir eraill</b>							
Rhwymedigaeth Pensiwn	(135,891)	0	0	0	0	0	(135,891)
<b>Cyfanswm Asedau llai</b>	<b>34,182</b>	<b>(14,126)</b>	<b>63,245</b>	<b>(1,576)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>81,725</b>
<b>Rhwymedigaethau Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio</b>							
Cyfrif Addasu Cyfalaf	138,390	(17,976)	63,245	0	0	(110)	183,549
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	545	0	0	0	0	0	545
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiant	4,585	3,850	0	0	0	0	8,435
Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	(135,891)	0	0	0	0	0	(135,891)
Cyfrif Absenoldebau Cronnus	0	0	0	(1,576)	0	0	(1,576)
<b>Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy</b>							
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	2,925	0	0	0	0	0	2,925
Cronfeydd wrth Gefn a ddelir gan ysgolion	3,145	0	0	0	0	0	3,145
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	12,299	0	0	0	0	0	12,299
Cronfa'r Cyngor	5,808	0	0	0	0	(2)	5,806
Cronfa'r Cyngor - Cyfrif Refeniw Tai	2,376	0	0	0	0	112	2,488
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn</b>	<b>34,182</b>	<b>(14,126)</b>	<b>63,245</b>	<b>(1,576)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>81,725</b>

## Y FANTOLEN AR 31/03/09

	Datganiad Cyfrifon 31/03/09	Ailddosbarthu Asedau	Ailddosbarthu Grantiau	Buddion gweithwyr	Tymor hir / Tymor byr	Addasiad au eraill	Ailddatgan 31/03/09
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Eiddo, Offer a Chyfarpar</b>							
Anheddau Cyngor	93,225	(3,715)	0	0	0	0	89,510
Tir ac adeiladau eraill	141,287	1,163	0	0	0	0	142,450
Isadeiledd	40,127	293	0	0	0	0	40,420
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar	2,816	126	0	0	0	0	2,942
Asedau Cymunedol	18,121	(17,710)	0	0	0	0	411
Asedau yn cael eu hadeiladu	886	10	0	0	0	0	896
Asedau Gwarged na ddelir i'w gwerthu	5,220	(2,719)	0	0	0	0	2,501
<b>Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar</b>	<b>301,682</b>	<b>(22,552)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>279,130</b>
Eiddo Buddsoddiad	1,810	5,801	0	0	0	0	7,611
Asedau Anniriaethol	165	7	0	0	0	0	172
Buddsoddiadau tymor hir	5,265	0	0	0	0	0	5,265
Dyledwyr tymor hir	276	0	0	0	0	0	276
<b>Cyfanswm Asedau tymor hir</b>	<b>309,198</b>	<b>(16,744)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>292,454</b>
<b>Asedau Presennol</b>							
Rhestrau stoc	384	0	0	0	0	0	384
Dyledwyr tymor byr	21,268	0	0	0	0	0	21,268
Buddsoddiadau tymor byr	13,345	0	0	0	0	0	13,345
Arian Parod a Chyferthoedd Arian	9,976	0	0	0	0	(2,866)	7,110
<b>Rhwymedigaethau presennol</b>							
Credydwyr	(19,694)	0	230	(1,462)	0	(942)	(21,868)
Darpariaethau Tymor byr	0	0	0	0	(842)	0	(842)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw	0	0	(230)	0	0	0	(230)
Benthyca Tymor Byr	(1,610)	0	0	0	0	0	(1,610)
Gorddrafft banc	(3,808)	0	0	0	0	3,808	0
<b>Cyfanswm Asedau Presennol llai</b>	<b>329,059</b>	<b>(16,744)</b>	<b>0</b>	<b>(1,462)</b>	<b>(842)</b>	<b>0</b>	<b>310,011</b>
<b>Rhwymedigaethau</b>							

## Y FANTOLEN AR 31/03/09

	Datganiad Cyfrifon 31/03/09	Ailddosbarthu Asedau	Ailddosbarthu Grantiau	Buddion gweithwyr	Tymor hir / Tymor byr	Addasiad au eraill	Ailddatgan 31/03/09
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>							
Credydwyr Tymor Hir	(6)	0	0	0	0	0	(6)
Benthyca Tymor Hir	(90,115)	0	0	0	0	0	(90,115)
Darpariaethau	(3,457)	0	0	0	842	0	(2,615)
Grantiau Llywodraeth Gohiriedig	(69,567)	0	69,567	0	0	0	0
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir eraill</b>	<b>(163,145)</b>	<b>0</b>	<b>69,567</b>	<b>0</b>	<b>842</b>	<b>0</b>	<b>(92,736)</b>
Rhwymedigaeth Pensiwn	(69,033)	0	0	0	0	0	(69,033)
<b>Cyfanswm Asedau llai</b>	<b>96,881</b>	<b>(16,744)</b>	<b>69,567</b>	<b>(1,462)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>148,242</b>
<b>Rhwymedigaethau Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio</b>							
Cyfrif Addasu Cyfalaf	136,135	(20,684)	69,567	0	0	(112)	184,906
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	679	0	0	0	0	0	679
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiant	5,634	3,940	0	0	0	0	9,574
Cronfa Wrth Gefn Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu	812	0	0	0	0	0	812
Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	(69,033)	0	0	0	0	0	(69,033)
Cyfrif Absenoldebau Cronnus	0	0	0	(1,462)	0	0	(1,462)
<b>Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy</b>							
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	1,659	0	0	0	0	(14)	1,645
Cronfeydd wrth Gefn a ddelir gan ysgolion	3,246	0	0	0	0	0	3,246
Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	11,217	0	0	0	0	0	11,217
Cronfa'r Cyngor	4,696	0	0	0	0	181	4,877
Cronfa'r Cyngor - Cyfrif Refeniw Tai	1,836	0	0	0	0	(55)	1,781
<b>Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn</b>	<b>96,881</b>	<b>(16,744)</b>	<b>69,567</b>	<b>(1,462)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>148,242</b>

**ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL**

Wrth gau'r cyfrifon 2009-10 amlygwyd nifer o agweddau o drefniadau'r Cyngor ar gyfer Asedau nad ydynt yn gyfredol (adnabyddir ynghynt fel Asedau Sefydlog) a allai cael eu gwella. Mewn ymateb i hyn, ynghyd â'r catalydd a ddaeth o'r cyflwyniad o SAARH, gwnaed nifer o newidiadau i'r ffigyrau ar gyfer blynyddoedd y gorffennol. Dangosir y canlyniadau yn y tablau isod, wedi ei rhannu i:

- newidiadau o ganlyniad i adolygiad cyffredinol o'r polisïau cyfrifo yng ngolwg y gofynion mwy llym a'r eglurder mwy sydd wedi ei gynnwys yn y Côt Ymarfer yn seiliedig ar y SAARH, a
- Ailgategoreiddio asedau i matsio'r diffiniadau newydd perthnasol o dan ofynion y SAARH.

Cynhwysir y newidiadau yma i gyd yn y colofnau ar gyfer 'Ailgategoreiddio Asedau' yn y tablau uchod.

**NEWIDIADAU I FALANSAU AR 1 EBRILL 2009**

	ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL				BALANSAU ARALL				
	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar	Eiddo Buddso- ddiad	Asedau Annira- ethol	Cyfanswm Asedau Nad Ydynt Yn Gyfredol	Grantiau Llywodr- aeth a Gohiriedig	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisi- ant	Cyfrif Addasu Cyfalaf	Cronfeydd wrth gefn Defnydd- iadwy	Cyfanswm Balansau Arall
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Fel Datganiad Cyfrifon 2008/09</b>	<b>301,682</b>	<b>1,810</b>	<b>165</b>	<b>303,657</b>	<b>69,567</b>	<b>5,634</b>	<b>136,135</b>	<b>22,654</b>	<b>233,990</b>
<i>Newidiadau i Symiau 2008-09</i>									
Adolygiad o'r Portffolio Asedau*	5,381	(5,397)	0	(16)	0	0	0	0	0
Newidiadau arall yng ngwerthoedd Asedau **	672	(12)	7	667	0	0	0	0	0
Newidiadau yn y Cronfeydd wrth gefn	0	0	0	0	0	4,666	(4,128)	112	650
Gwerth net a adolygwyd ar 1 Ebrill 2009	307,735	(3,599)	172	304,308	69,567	10,300	132,007	22,766	234,640
Newidiadau Ailddatgan SAARH	(28,605)	11,210	0	(17,395)	(69,567)	(726)	52,899	0	(17,394)
<b>Balans ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2009</b>	<b>279,130</b>	<b>7,611</b>	<b>172</b>	<b>286,913</b>	<b>0</b>	<b>9,574</b>	<b>184,906</b>	<b>22,766</b>	<b>217,246</b>
<b>NEWID NET</b>	<b>(22,552)</b>	<b>5,801</b>	<b>7</b>	<b>(16,744)</b>	<b>(69,567)</b>	<b>3,940</b>	<b>48,771</b>	<b>112</b>	<b>(16,744)</b>



**NEWIDIADAU I FALANSAU AR 31 MAWRTH 2010**

	ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL				BALANSAU ARALL				
	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar	Eiddo Buddso-ddiad	Asedau Annira-ethol	Cyfanswm Asedau Nad Ydynt Yn Gyfredol	Grantiau Llywodr-aeth a Gohiriedig	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisi-ant	Cyfrif Addasu Cyfalaf	Cronfeyd d wrth gefn Defnydd- iadwy	Cyfanswm Balansau Arall
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Fel Datganiad Cyfrifon 2009/10</b>	<b>303,768</b>	<b>1,887</b>	<b>140</b>	<b>305,795</b>	<b>63,245</b>	<b>4,585</b>	<b>138,390</b>	<b>26,553</b>	<b>232,773</b>
Symudiad yn balans 1 Ebrill 2009	(22,552)	5,801	7	(16,744)	(69,567)	3,940	48,771	112	(16,744)
<i>Newidiadau I Symiau 2009-10</i>									
Adolygiad o'r Portffolio Asedau*	411	(821)	0	(410)	0	0	0	0	0
Newidiadau arall yng ngwerthoedd Asedau **	3,013	1	14	3,028	0	0	0	0	0
Newidiadau yn y Cronfeydd wrth gefn	0	0	0	0	0	(90)	2,710	(2)	2,618
Gwerth net a adolygwyd ar 1 Ebrill 2009	284,640	6,868	161	291,669	(6,322)	8,435	189,871	26,663	218,647
Newidiadau Ailddatgan SAARH	(603)	603	0	0	6,322	0	(6,322)	0	0
<b>Balans ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2009</b>	<b>284,037</b>	<b>7,471</b>	<b>161</b>	<b>291,669</b>	<b>0</b>	<b>8,435</b>	<b>183,549</b>	<b>26,663</b>	<b>218,647</b>
<b>NEWID NET</b>	<b>(19,731)</b>	<b>5,584</b>	<b>21</b>	<b>(14,126)</b>	<b>(63,245)</b>	<b>3,850</b>	<b>45,159</b>	<b>110</b>	<b>(14,126)</b>

\* Yn cynnwys ailddatganiadau rhwng mathau o asedau, adolygiad o'r symiau a ddilëwyd ar waredu ac ailbriso ychwanegol.

\*\* Yn cynnwys addasiadau i'r swm o wariant a nodwyd ym mhob blwyddyn ariannol (cyfanswm y gwariant ar draws y blynyddoedd yn parhau'r un fath), ac ail-gyfrifo costau dibrisiant.

## **GEIRFA**

### **ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r flwyddyn flaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad camgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

### **ADNODDAU HYLIFOL**

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

### **AMHARIAD**

Lleihad mewn gwerth ased nad yw'n gyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

### **ARCHWILIO CYFRIFON**

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

### **ARIANNU CYFALAF**

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf deffiniad, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, refeniw cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **ASED**

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu sefydlog:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu anniriaethol, (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

### **ASED WRTH GEFN**

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

### **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

### **ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

### **ASEDAU ISADEILEDD**

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae eu gwerth yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

### **ASEDAU GWEITHREDOL**

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

### **ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**

Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

### **BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

### **BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

### **BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

### **BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

### **BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

### **BUSNES HYFYW**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

### **BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycia ei hun.

## **CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo.

## **CONTRACT TYMOR HIR**

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

## **CORFFORAETHOL A CHRAIDD DEMOCRATAIDD**

Mae'r Corfforaethol a Craidd Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

## **COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

## **COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

## **COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i Wasanaethau.

## **COST LLOG (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddion yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

## **CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

## **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniad gwaged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gwrdd â gwariant cyfredol.

## **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

## **CRONIADAU**

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm refeniw a chyfalaf a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

## **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhrefn incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

## **CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

## **CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

## **CYLLIDEB**

Rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf net dros y flwyddyn ariannol.

## **CYMHORTHDAL NEGYDDOL**

Dengys y cyfrifiad Cymhorthdal Tai Cyfrif Refeniw Tai fod incwm tybiedig y Cyngor yn fwy na gwariant gan arwain at "gymhorthdal negyddol". Yn yr achos hwn, rhaid i'r Cyngor dalu swm sy'n cyfateb i'r diffyg, o'i Gyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## **CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

## **CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

## **DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

## **DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

## **DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

## **DIBRISIANT**

Mesur o'r gost o dreulio, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

## **DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

## **DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

## **DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## **EITEMAU ANGHYFFREDIN**

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau o'r flwyddyn flaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â'r flwyddyn flaenorol.

## **ENILLION A CHOLLEDION ACTWARAIDD**

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actwaraidd a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

## **GRANT CEFNOGI REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

### **GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

### **GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei offen ar ddyddiad y Fantolen.

### **GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar gaffael ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased nad yw'n gyfredol presennol.

### **GWARIANT REFENIW**

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

### **GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

### **GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

### **GWERTH LLYFR NET**

Y swm y mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

### **GWERTH NET**

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

### **GWERTH TEG**

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd fraich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

### **GWERTH TRETHADWY**

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

### **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

## **LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**

Defnyddir y gyfradd log gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, a dyrennir incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd weithredol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gweithredol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

## **MATEROLIAETH**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

## **OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased nad yw'n gyfredol.

## **PARTION CYSYLLTIEDIG**

Mae diffiniad manwl o Bartion Cysylltiedig yn IAS 24. I bwrpasau'r Cyngor, tybir bod Partion Cysylltiedig yn cynnwys aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr, eu Cyfarwyddwyr ac aelodau agos o'u teulu a'u haelwyd.

## **PRAESEPT**

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

## **PRYDLES ARIANNOL**

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased nad yw'n gyfredol i'r prydleswr.

## **PRYDLES WEITHREDOL**

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased nad yw'n gyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

## **RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

## **RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau deffiniad, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.



## **RHWYMEDIGAETH**

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

## **RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

## **RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

## **TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)**

Mae graddfeydd trethi annomestig cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

## **TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a goblygiadau hynny.

## **Y FANTOLEN**

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symud yn y Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARH).

### **Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

### **Cyhoeddi adroddiadau archwilio ar wefanau**

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw cynnal a chadw chywirdeb ei safle we; nid yw'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion yma ac, o ganlyniad, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau efallai sydd wedi digwydd i'r datganiad cyfrifon ers iddo gael ei gyflwyno'n cychwynol ar y wefan.

### **Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Côd Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett, Archwilywr Apwyntiedig**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd**

**CF11 9LJ**

## **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – 2010-11**

### **CEFNDIR**

Yn 2009 cynhaliwyd Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol o Gyngor Sir Ynys Môn. Fe ymgwymerwyd arolwg yn dilyn Llythyr Blynyddol gan y Rheolwr Perthynas ym mis Ionawr 2009. Roedd y llythyr yn datgan fod:

‘yr Archwiliwr Penodedig yn argymhell fod Archwiliwr Cyffredinol yn cynnal arolwg o dan rhan 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 o drefn llywodraethol corfforaethol y Cyngor gan fod pryder fod anhawster yn y berthynas weithiol rhwng rhai o’r Aelodau Gweithredol â rhai uwch swyddogion yn cael effaith niweidiol a’r y Cyngor ar gallu i gyflawni dyletwyddau gwerth gorau’

Derbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol yr argymelliad a chynhaliwyd yr arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod mis Ebrill 2009. Yn dilyn yr Arolygiad, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Gweinidogion Cymru ymyrryd ym musnes y Cyngor o dan adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn a chyhoeddwyd cyfarwyddyd i’r Cyngor gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. O dan y cyfarwyddyd, penododd y Gweinidog Reolwr Gyfarwyddwr dros dro a chyfarwyddodd y Cyngor i gydweithredu gyda Bwrdd Adfer a sefydlwyd i oruchwylio’r gwaith o weithredu’r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Penodwyd y Bwrdd Adfer tan fis Awst 2011, oni bai y cai’r cyfarwyddyd i’r Cyngor ei ymestyn neu ei gwtogi, a bu’n cyflwyno adroddiadau rheolaidd i’r Gweinidog.

Felly, roedd gwella llywodraethu corfforaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Cyngor yn 2010/11 a cheisiodd wneud hyn trwy Gynllun Adfer gyda’r prif benawdau canlynol:

1. Datblygiad yr Aelodau;
2. Rhaglen Datblygu Cyd-Weithio rhwng Aelodau a Swyddogion;
3. Cryfhau Arweinyddiaeth & Ymgysylltu Cymunedol;
4. Gwneud y Cyngor yn Fwy Craff am Fusnes;
5. Rheoli Cynaliadwyedd Tueddiadau mewn Perfformiad;
6. Gwella Enw Da’r Cyngor; a
7. Cynllun Gweithredu Adnoddau Dynol

Yn Chwefror 2011, yn dilyn adroddiad gan y Bwrdd Adfer, gofynnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i’r Archwilydd Cyffredinol gynnal ail arolygiad i asesu cynnydd y Cyngor ar fynd i’r afael â darganfyddiadau’r Arolygiad gwreiddiol. Daeth yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2011 yn dilyn yr ail arolygiad i’r casgliad nad oedd ymyrraeth Gweinidog Cymru yn 2009 wedi arwain at adferiad cynaliadwy a bod angen ymyrryd yn gryfach.

Ers 01 Ebrill 2011, mae Comisiynwyr a benodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi bod yn ymarfer swyddogaeth weithredol y Cyngor a phenodwyd Prif Weithredwr Dros Dro newydd. Mae gan y Cyngor Arweinydd o hyd a phenodwyd Pwyllgor Gweithredol er nad oedd gan y pwyllgor hwnnw bwerau i wneud penderfyniadau.

Mae’r adroddiad hwn felly, i raddau helaeth, yn disgrifio trefniadau Llywodraethu’r Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2011 ond dylai darllenwyr dalu sylw i’r newidiadau o dan y

Gyfarwyddeb Weinidogol ers y dyddiad hwnnw ar ôl penodi Comisiynwyr ar gyfer y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2011 a dyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Mae'r Comisiynwyr wedi datblygu Cynllun Gwelliannau'r Comisiynwyr yn ddiweddar sy'n ymgorffori deg o Themâu Gwella Llywodraethu Corfforaethol a ddyfeisiwyd i fynd i'r afael â'r gwendidau llywodraethu sy'n parhau yn y Cyngor. Mae'r rhain yn awr wedi disodli'r saith maes gwella oedd gan y Bwrdd Adfer.

## **RHAN 1: CWMPAS Y CYFRIFOLDEB**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni'n unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod atebolrwydd priodol drosto, ac yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus i'r ffordd y caiff ei swyddogaethau eu hymarfer, drwy ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau priodol i lywodraethu ei fusnes, i hwyluso'r gwaith o ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg a rheolaeth ariannol foddhaol ac effeithiol.

Nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymeradwyo na mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol lleol, sy'n anghyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar Ddarparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae'r datganiad yma yn ystyried Adroddiad Gwelliannau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn Ionawr 2011 a'r Asesiad Gwella: Yn Cynnwys Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol a gyhoeddwyd yn Awst 2011 yn adrodd ar y cynnydd a wnaed ers yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009.

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yng nghyswllt cyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

## **RHAN 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r awdurdod yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli wrthynt ynghyd â'r gweithgareddau y mae'n atebol i, yn ymgysylltu gyda ac yn arwain y gymuned drwyddynt. Drwyddo, mae'r awdurdod yn gallu monitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a ydyw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i dyfeisio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall ond cynnig sicrwydd rhesymol ac nid llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor, i farnu pa mor debygol y mae'r risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith pe baent yn digwydd, tra'n eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir isod wedi bod yn ei le yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Ers 01 Ebrill 2011, mae'r fframwaith llywodraethu yn parhau ond gyda'r newidiadau a wnaed o dan gyfarwydddeb a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

## **RHAN 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

**Y Cyfansoddiad** – Mae prif elfennau trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi eu hadlewyrchu yng Nghyfansoddiad y Cyngor (fel a ddiwygiwyd gan gyfarwydddebau Gweinidogol). Mae'r Cyfansoddiad yn ffordd bwysig o helpu cynghorwyr, swyddogion, dinasyddion a rhanddeiliaid i ddeall sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny. Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiad parhaus.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a pha weithdrefnau sy'n cael eu dilyn i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, tryloyw ac atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn gyfreithiol ofynnol, tra bod eraill yn fater o

ddewis y Cyngor. Mae'r Cyfansoddiad wedi'i rannu'n 16 o Erthyglau sy'n nodi'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes y Cyngor. Darperir gweithdrefnau mwy manwl a chodau ymarfer mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen, yn cynnwys:

**Codau Ymddygiad** – Mae swyddogion ac aelodau yn destun Codau Ymddygiad sy'n nodi pa safonau ymddygiad y disgwylir iddynt gadw atynt. Mae copïau o'r Codau'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac mae'r rhain ar gael ar wefan a Mewnrwyd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Cymwys Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru ar gyfer cyflogeion.

**Cynllun Dirprwyo** – Mae'r adran yma o'r Cyfansoddiad yn cofnodi'r pwerau a ddirprwyir o Aelodau i Swyddogion ar gyfer y pwrpasau a nodir. Mae'r adran hefyd yn nodi cyfyngiadau'r dirprwyo hwn.

**Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion** – Mae'r protocol yn nodi'r safonau ymddygiad y disgwylir i Aelodau a Swyddogion y Cyngor gadw atynt yn eu perthynas â'i gilydd tra'n rhoi arweiniad ar rai o'r materion sydd fel arfer yn codi. Mae'n cael ei gydnabod mai ansawdd ac effeithiolrwydd y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor yw hanfod llywodraethu lleol da.

**Polisiau a gweithdrefnau** – Mae gan y Cyngor fyrdde o bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer y rhan fwyaf o'i weithgareddau. Rhoddir polisiau a gweithdrefnau yn eu lle i hysbysu Aelodau, Swyddogion a rhanddeiliaid ynghylch polisi'r Cyngor ar agweddau allweddol ar ei weithgareddau tra bo'r gweithdrefnau'n nodi sut mae'r polisi hwnnw'n cael ei weithredu a'i ddilyn yn y Cyngor. Mae nifer o bolisiau allweddol ar Lywodraethu Corfforaethol wedi eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r polisiau hyn yn cynnwys:-

**Polisi Chwythu'r Chwiban (Polisi Gweithdrefn Gyfrinachol)** – Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl ar fod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn annog gweithwyr ac eraill sydd â phryderon difrifol ynghylch unrhyw agwedd ar waith y Cyngor i gysylltu a lleisio'r pryderon hynny. Rydym yn deall y bydd angen i rai achosion symud ymlaen yn gyfrinachol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'n glir y gall staff wneud hynny heb ofn dial.

**Polisi ar Atal Twyll a Llygredd** - Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i atal twyll a llygredd yn ei holl weithgareddau ac yn y gymuned ehangach. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor am gyfathrebu'r ymrwymiad hwn a sut fydd materion twyll a llygredd honedig yn cael eu hymchwilio a pha gamau y gall unrhyw ddrwgweithredwyr ddisgwyl eu hwynebu.

**Gweithdrefn Gorfforaethol ar Gwyno a Chanmol** – Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon yn unol ag anghenion a disgwyliadau ei gwsmeriaid. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth barn y cwsmer a chyfraniad hyn at brosesau llunio polisi a darparu gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn delio gyda chwynion yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn yr iaith sydd orau gan y sawl sy'n cwyno, neu cyn belled ag y bo'n bosibl, yn newis iaith y sawl sy'n cwyno.

Mae'r Weithdrefn yn nodi sut fydd y Cyngor yn delio gyda chwynion a'r amserlen ar gyfer ymateb. Cafodd y gweithdrefniad yma eu ddiweddarau yn ystod y flwyddyn.

**Rheolau gweithdrefn** – Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys rheolau gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, Y Weithrediaeth a chyfarfodydd Craffu yn ogystal â rheolau yng nghyswllt â mynediad at wybodaeth, materion cynllunio, y gyllideb a'r fframwaith polisi.

**Swyddogion Statudol** – Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y Cyngor yw Swyddog Ariannol Cyfrifol dynodedig y Cyngor (Swyddog Adran 151). Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn adrodd i'r Prif Weithredwr, mae'n aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ac hefyd yn brif gynghorwr cyllid y Cyngor. Mae gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol fynediad uniongyrchol at aelodau drwy fynychu'r Pwyllgorau Gweithredol, Craffu ac Archwilio a chyfarfodydd y Cyngor Llawn. Yn ystod y flwyddyn fe benodwyd Cyfarwyddwr dros dro gan y Cyngor gogyfer darparu a rhoi arweiniad ar gyfer y broses adfer gan Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yw Swyddog Monitro dynodedig y Cyngor yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynghyd â phrif gynghorwr cyfreithiol y Cyngor i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn rhai cyfreithlon a theg, ac i fonitro, adolygu a chynnal Cyfansoddiad y Cyngor tra'n cynnal safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus.

**Cynllun Adfer y Cyngor** – Yn dilyn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009, cytunwyd ar Gynllun Adfer a chymerwyd camau yn 2010-11 i wella llywodraethu corfforaethol mewn ymateb i ganlyniad yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r camau yma yn cynnwys:

**Rheoli Perfformiad** - Mesurir a gwerthusir ansawdd y gwasanaethau a dderbynnir gan ddefnyddwyr mewn gwahanol ffyrdd yn ôl y math o wasanaeth a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r Cyngor yn gosod targedau lleol ar gyfer gwasanaethau ac yn monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol fel rhan o'i gyfarfodydd Perfformiad Chwarterol. Cynhelir cyfarfodydd pob chwarter i adrodd ar ganlyniadau yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau'r Cytundeb Canlyniadau a hefyd i drafod unrhyw risg i'r amcanion gweithredol. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol annibynnol yn ogystal â chan y dalwyr Portffolio perthnasol a'r Comisiynwyr.

**Cytundebau Canlyniadau** – Mae Cytundebau Canlyniadau yn bodoli rhwng pob awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru gan bara tair blynedd a dod i ben ym mis Mawrth 2013. Mae Cytundebau Canlyniadau'n cynnwys deg thema strategol drosfwaol wedi eu codi'n wreiddiol o'r ddogfen Cymru'n Un, a, lle bo hynny'n bosibl, i adlewyrchu amcanion gwella presennol y Cyngor, neu rai sydd wedi eu hadnabod. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cytundebau Canlyniadau'n cael ei adrodd i ac yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru'n flynyddol. Mae perfformiad yn cael ei gysylltu i grant pro-rata, sy'n cael ei dalu i'r Awdurdod yn ôl ei lwyddiant gyda chyflawni'r canlyniadau yn ei Gytundeb.

**Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy** - Cyfres gytunedig o doriadau cyllideb yw Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'r Cyngor, wedi eu hanelu at gwrdd yn rhannol â'r toriadau sy'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud i'w gyllideb. Mae cynnydd gyda chw'rdd â thargedau'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'n cael ei fonitro yn y cyfarfodydd Chwarterol.

**Cynllunio Busnes** - Cefnogir llywodraethu corfforaethol gan brosesau a disgyblaethau cynllunio busnes megis cynllunio gwasanaethau, rheoli risg a rheolaeth ariannol.



## **RHAN 4: CYDYMFFURFIO GYDA LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL EGWYDDORION**

**Egwyddor Un: Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cadarn.**

Yn rhan 4 isod, edrychwn ar bob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Corfforaethol (yr Egwyddorion Llywodraethu Da fel a gynigir gan CIPFA/SOLACE yn eu dogfen 'Delivering Good Governance in Local Government 2007') i ddechrau o ran y sefyllfa fel yr oedd yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11.

Ers Ebrill 2011 mae'r Comisiynwyr a benodwyd wedi gosod allan eu deg Thema i Wella Llywodraethu Corfforaethol. Bydd gwella perfformiad yn y meysydd hyn yn cael ei fonitro gan Gomisiynwyr ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu barn gyffredinol am brosesau Llywodraethu'r Cyngor a fydd i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi eu gosod allan o dan bob un o'r egwyddorion i ddangos perthnasedd y rhain i gryfhau pob un ohonynt.

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

**Y cyhoedd yn siarad mewn Pwyllgorau Cynllunio** – Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i siarad o blaid ceisiadau Cynllunio os ydynt wedi hysbysu'r Cyngor eu bod yn bwriadu gwneud hynny cyn belled â'u bod yn canolbwyntio ar faterion Cynllunio'n unig wrth siarad.

**Trefniadau Cydweithredu/Partneru** – Yn erbyn cefndir o doriadau i gyllidebau a bod angen mwy o effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus yn gyffredinol, mae rhaglen o brosiectau cydweithredol yn cael ei datblygu gan y 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru o dan y Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol. Hyd yma, mae pedwar Bwrdd Rhaglen wedi eu sefydlu i ddatblygu modelau cydweithredol yn y meysydd canlynol:

- Addysg;
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd;
- Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Rheoliadol; a
- Gwasanaethau Cymorth.

Rydym yn cyfrannu'n weithredol at y gwaith o gefnogi pob Bwrdd Rhaglen gyda chynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, e.e. gwella ysgolion a Teleofal am y naill, a'r Cyd-Dîm Polisi Cynllunio gyda Gwynedd am y llall.

**Ynys Ynni** – Bydd y fenter Ynys Ynni hefyd yn rhoi cyfle i Ynys Môn arwain a chydweithredu gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat ar adfywio ynni cynaliadwy ar sail Gogledd Cymru, Cymru a'r DU gyda golwg ar ysgogi cyfleoedd busnes a photensial gwaith ar gyfer Ynys Môn.

**E-Ddemocratiaeth** – Mae'r Cyngor wedi uwchraddio a gwella ei wefan dros y cyfnod gan gynnwys darparu cyfleusterau i hwyluso dosrannu ac ymgynghori cyhoeddus. Fel rhan o'r prosiect hwn, mae agendâu cyfarfodydd y Cyngor yn awr yn cael eu cyhoeddi ar y wefan 24 awr ar ôl eu cynhyrchu. Mae bellach yn haws cael mynediad at a chwilio drwy'r cofnodion a'r agendâu ar-lein.

**Sesiynau Cwestiynnau Gweithredol** – Ym mis Ionawr a Chwefror 2011 cynhaliwyd saith Sesiwn Cwestiwn Gweithredol. Mynychwyd y sesiynau hyn gan Arweinydd y Cyngor ynghyd

ar Pwyllgor Gweithredol. Roedd y sesiynau wedi eu cynllunio gogyfer rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ar gyllideb arbedion arfaethedig.

## Meysydd gwendid sydd wedi eu nodi

Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol lleol, sy'n anghyson ag egwyddorion CIPFA/SOLACE.

## GWELLIANNAU

**Cynllun Cymunedol Ynys Môn – Ein Hynys – Ein Dyfodol 2012-25** – Strategaeth Gymunedol sydd wrth wraidd holl gynlluniau strategol a gwasanaeth y Cyngor. Mae'r Cynllun Cymunedol yn hyrwyddo'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ardal ac yn adnabod blaenoriaethau trawsbynciol sydd angen eu gweithredu ar lefel strategol.

Nod y Cynllun Cymunedol yw holi barn y cyhoedd am y blaenoriaethau yn y ddogfen drwy egluro sut y gall unigolion gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun a chan roi manylion cyswllt a gwefan fel y medrant leisio barn.

**Prosiect Adnewyddu Democrataidd** – Roedd adroddiad yr ail arolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru'n argymhell bod Gweinidogion Cymru'n gofyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu ei gynigion a gyhoeddwyd yn 2010 i sicrhau bod y newidiadau a gynigir yn rhoi sylw digonol i'r angen am adnewyddu democrataidd ar Ynys Môn o ran nifer y cynghorwyr a chyflwyno wardiau aml-aelod.

**Newidiadau i'r Pwyllgor Cynllunio** – Ym mis Mai 2011 diwygiwyd Cyfansoddiad y Cyngor am gyfnod prawf o 12 mis yng nghyswllt newidiadau i'r Pwyllgor Cynllunio. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys;

- eglurhad ar y rheolau ynghylch ceisiadau gan Aelodau / Swyddogion a rhai eu perthnasau a ffrindiau agos, sydd i'w hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad;
- newidiadau i'r rheolau sef na chaiff Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio wneud nac eilio argymhelliad na phleidleisio ar gais sydd wedi'i leoli yn eu ward hwy, a;
- newidiadau i'r rheolau sef, ar wahân i siarad fel Cynghorydd lleol, na chaiff Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio gyfrannu at gais mewn Pwyllgor os nad oeddent yn bresennol pan gafodd y cais hwnnw ei ystyried yn wreiddiol gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol a gynhaliwyd.

**Sesiwn Galw 'Mewn** – Yn ystod mis Hydref 2011 cafodd cyfres o bump sesiwn galw 'mewn eu cynnal ar draws yr ynys ar y themau 'Ein Ynys, Ein Cyngor – Eich Cyfraniad'. Roedd y sesiynau cyhoeddus hyn yn holi am farn y rhai oedd yn bresennol ynghlyn a blaenoriaethau yn y dyfodol a gosod targedau newydd. Cymerwyd ac ystyriwyd barn y rhai oedd yn bresennol fel rhan o gynllun Datblygu Corfforaethol 2012 – 2015 a Cynllun Cymunedol 2012 – 2025.

## Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr

**Thema 6 – Datblygu blaenoriaethau strategol gyda mwy o fesuriadau seiliedig ar ganlyniad.**

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i adnabod blaenoriaethau seiliedig ar ganlyniad er mwyn llunio Cynllun Corfforaethol 2012/15;

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i adnabod blaenoriaethau seiliedig ar ganlyniad er mwyn llunio Strategaeth Gymunedol 2012/15;
- Paratoi Cynllun Strategol Integredig Sengl.

**Thema 9 – Ymgysylltu'n llawn gyda ac adlewyrchu barn a blaenoriaethau dinasyddion Ynys Môn.**

- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Adnewyddu Democrataidd;
- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol;
- Datblygu a gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu;
- Datblygu a chyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Thema 10 – Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

- Gweithredu'r Cynllun Partneriaeth Plant & Pobl Ifanc;
- Gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant o ganlyniad i adolygiad y CCSIW;
- Gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- Cefnogi'r gwaith o redeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol effeithiol / integredig.

## **Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyrchu at bwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.**

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Fel a nodir yn fwy manwl o dan Rhan 3 uchod, mae gan y Cyngor nifer o weithdrefnau yn eu lle i ddiffinio a rheoleiddio rolau ac ymddygiad swyddogion ac aelodau a ddyfeisiwyd i sicrhau bod pawb yn gweithio i gyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion penodol y Cyngor.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys Cyfansoddiad y Cyngor; Codau Ymddygiad; Cynllun Dirprwyo; Protocol ar gyfer Cysylltiadau rhwng Aelodau / Swyddogion; Cylch Gorchwyl Pwyllgorau ayyb. Mae dogfennau eraill, fel disgrifiadau swydd, yn diffinio swyddogaethau a rolau gwahanol aelodau a gwahanol swyddogion.

**Protocolau Rheolaeth Wleidyddol** – Mae'r Cyngor yn cydnabod pa mor bwysig yw Rheolaeth Wleidyddol a bod angen cael fframweithiau effeithiol a chydabyddedig yn eu lle i wneud penderfyniadau busnes gwleidyddol mewn ffordd drefnus ac aeddfed.

Yn 2010-11, cynhyrchwyd a thrafodwyd Protocolau ar gyfer Rheolaeth Wleidyddol. Mae'r Protocolau hyn yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, nid sylwedd y penderfyniadau hynny. Mae'r Protocolau yn gam pwysig i helpu i sefydlu a chynnal cysylltiadau gweithio gwell rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol unigol. Cafodd y Protocolau eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2011.

**Rôl y dalwyr portffolio** – Mae pob rôl wedi'i diffinio yn y disgrifiad swydd ac ym manyleb y person. Mae'r dalwyr portffolio'n rhoi arweiniad ar pa gyfeiriad gwleidyddol i'w roi i swyddogion ac ar ennill parch swyddogion tra'n cynorthwyo'r swyddogion i weithredu prosiectau sy'n gysylltiedig â phortffolios. Mae gan ddalwyr Portffolio hefyd drosolwg ar reoli perfformiad yn eu hardal ac yn mynychu cyfarfodydd Chwarterol.

Mae gan ddalwyr Portfolio hefyd rôl strategol i'w chwarae o ran llunio dogfennau polisi strategol a statudol gan roi cymorth gyda chynhyrchu a gweithredu rhaglen waith strategol yn eu meysydd cyfrifoldeb unigol.

**Gweithdai Aelodau / Swyddogion** – dros y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o weithdai gyda'r nod o ddatblygu'r berthynas weithio rhwng Aelodau Gweithredol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol.

**Cyfarfodydd Arweinwyr Grŵp** – Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng yr Arweinwyr Grŵp ac Arweinydd y Cyngor dros y flwyddyn. Y nod oedd ceisio cael cytundeb ymhlith arweinwyr er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro diangen mewn cyfarfodydd. Roedd trafodaethau'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys dyrannu Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau, y Pwyllgor Safonau a Datblygu Aelodau.

**Briffio Cyn Gyngor** – Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor, yr Arweinwyr Grŵp, Arweinydd y Cyngor ac uwch swyddogion. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw nodi unrhyw faterion lle mae cytundeb ac unrhyw faterion sy'n destun pryder ac sy'n debygol o greu gwrthdaro. Mae'r materion sy'n destun pryder yn cael eu trafod i weld a ellir cytuno ar ffordd ymlaen. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i'r swyddogion roi unrhyw wybodaeth a ofynnwyd amdani i'r Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor.

**Newidiadau i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol** – Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli. Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Pennaeth Adnoddau Dynol a Pennaeth Polisi a Perfformiad yn awr yn rhan o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol sy'n canolbwyntio ar faterion strategol heb orfod poeni am faterion gweithredol. Mae'r materion gweithredol wedi cael eu datganoli i Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys y Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr.

Mae'r fframwaith hwn yn rhyddhau'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i ganolbwyntio ar y sialensau strategol sy'n wynebu'r Cyngor gan ehangu ar rôl y Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn hwyluso cyfathrebu gwell gyda a rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth.

## **Meysydd gwendid sydd wedi eu nodi**

Nid oes cyfarfod o'r Arweinwyr Grŵp wedi'i gynnal ers tro ac mae angen ailgychwyn a chadw'r rhain i fynd.

## **Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

### **Thema 4 – Safonau ymddygiad gan aelodau a swyddogion**

- Cydymffurfio gyda'r Protocol ar Hunanreoleiddio, a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 4.3.10; ac
- Adolygu a chytuno ar brotocol Aelodau / Swyddogion.

### **Thema 5 – Trefniadaeth, cydlyniaeth ac effeithiolrwydd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor.**

- Adolygu rôl, pwrpas a swyddogaeth y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol / Tîm Rheoli;
- Adnabod Amcanion Gwella Llywodraethu Corfforaethol Mewnol ar gyfer 2012/13;
- Cynnig dyrannu adnoddau i flaenoriaethau wrth bennu cyllidebau.

### **Thema 7 – Cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg.**

- Sefydlu, mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol er mwyn cynhyrchu a monitro gwaith y sefydliad i'r dyfodol;
- Drafftio a chytuno ar yr Adroddiad Gwelliannau Blynyddol.

## **Egwyddor Tri: Datblygu capasiti a gallu'r Aelodau a'r Swyddogion i fod yn effeithiol.**

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i ddarparu hyfforddiant i aelodau a swyddogion ar gyfer eu priodolau. Mae trefniadau gwerthuso a rheoli perfformiad yn helpu i ganfod yr anghenion hyfforddi.

**Rhaglen Datblygu'r Aelodau 2010** – Mae'r rhaglen gweithdai i'r aelodau wedi'i dylunio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) ac uwch aelodau a swyddogion y Cyngor a fu'n gweithio gyda'i gilydd i gynnig y cyfleoedd datblygu gorau posibl i'r aelodau. Cynllunwyd y gweithdai i rhoi cyfle i'r aelodau ystyried beth yw rôl yr aelod modern a sut i'w chyflawni'n effeithiol a moesol. Disgwylir i'r holl aelodau fynychu'r gweithdai a, lle bo hynny'n berthnasol, y rhai a drefnwyd ar gyfer aelodau mewn rolau arbenigol.

Nod y rhaglen yw rhoi cyfle i'r aelodau ennill neu ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd fel arfer eu hangen ar aelodau ac yn benodol er mwyn cynnig atebion i'r sialensau a ddisgrifir yn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol.

**Gweithgor Datblygu Aelodau** – Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys tri Aelod etholedig, un Comisiynydd, un aelod o'r Pwyllgor Safonau, tri swyddog a chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Pwrpas y grŵp yw cynhyrchu Rhaglen Hyfforddiant Aelodau i hyrwyddo datblygiad yr Aelodau. Nod y Grŵp yn y pen draw yw bod y Cyngor yn ennill statws Siarter ar gyfer Datblygiad ei Aelodau. Mae'r Cyngor wedi datblygu ei fframwaith Datblygu Aelodau yn ôl fframwaith arfarnu'r CLLC ac yn ei dreialu, i ddechrau, gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau. Os bydd y peilot yn llwyddiannus, cyflwynir y rhaglen i'r Aelodau i gyd.

Mae ffurflenni ar gael i'r Aelodau i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi ac mae'r rhain yna'n cael eu bwydo'n ôl i'r Swyddog Hyfforddiant i ddiweddarau'r Cynllun Datblygu Aelodau. Bwriedir datblygu'r fframwaith ymhellach i gynnwys elfen berfformiad i fesur yr Aelodau yn ei herbyn. Bydd adborth o'r broses fonitro'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau, fydd â'r pŵer i alw i mewn unrhyw Aelod sy'n ymddangos i fod yn gyndyn o gyflawni hyfforddiant datblygu ac i'w hannog i gyfrannu at y broses yn y dyfodol.

**Arfarnu** – Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno system arfarnu sy'n cynnwys arfarnu Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion eraill. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Sir Conwy a Sir Dinbych i ddatblygu Cynllun Arfarnu Cymhwysedd Corfforaethol. Mae'r cynllun yr un fath ar gyfer pob swyddog o'r Prif Swyddog i lawr.

**Ethos Môn** – prosiect rheoli newid yw hwn wedi'i anelu at ddechrau proses o newid diwylliant yn y Cyngor o ran sut mae rheolwyr yn rheoli pobl, cyllid a pherfformiad. Mae'r prosiect yn cynnwys cael rheolwyr i fabwysiadu nifer o werthoedd a chredoau lle mae'r ffocws ar y dinesydd a'r cwsmer.

**Adolygu'r swyddogaethau cymorth canolog** – Mae'r Cyngor wedi cael dau Adolygiad gan Gymheiriaid yn edrych ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer Cyllid a TGC. Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda'r CLLC ym mhob un o'r adolygion yma. Mae adolygiad pellach o Adnoddau Dynol gan gwmni ymgynghori preifat wedi cymryd lle a'r cynllun gweithredu dilynol wedi symud yn eil flaen.

Mae Cynlluniau Gweithredu o'r adolygiadau wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

### **Meysydd gwendid sydd wedi eu nodi**

**Datganiad Cyfrifon** – ni fu'r Cyngor mewn sefyllfa i gyflwyno ei gyfrifon i'w harchwilio a'u cymeradwyo gan yr Archwilydd Allanol o fewn yr amserlen ofynnol, ar gyfer yr un o'r ddwy flynedd diwethaf (2009-10 a 2010-11).

Cafodd gynnydd sylweddol ei wneud yn 2010-11 o ran ailasesu asedau a chydymffurfio gyda gofynion yr IFRS. Nod y gwaith eleni yw sicrhau y bydd y Datganiad Cyfrifon am 2011-12 ar gael i'w archwilio a'i gymeradwyo erbyn y dyddiad gofynnol.

Ni chafodd arfarnu ei gyflawni'n gyson ar gyfer 2010-11.

Nid yw'r holl faterion a gododd o'r Adolygiadau gan Gymheiriaid wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn.

**Asesiad y CCSIW o Reoli'r Gofal a Roddir i Blant** – Ym mis Mai 2011 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CCSIW) adroddiad yn dilyn arolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu a rheoli'r gofal a roddir i blant mewn angen. Yn ôl yr adroddiad, roedd gwendidau mewn sawl maes wedi eu nodi gan gynnwys cydymffurfio gyda pholisi cenedlaethol, rheoliadau a chanllawiau statudol; yr ystod o wasanaethau cymorth sy'n briodol i anghenion plant a theuluoedd; goruchwyllo a rheoli staff cymorth; a rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd trefniadau'r gwasanaeth i gyflawni canlyniadau i blant a theuluoedd.

Mae'r Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac mae wedi cynhyrchu Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant i hwyluso'r gwaith o wella perfformiad yn y meysydd hyn.

**Parhad Busnes** – Nid oes gan y Cyngor Gynlluniau Parhad Busnes ac Adfer o Drychineb TGCh cymeradwy yn eu lle. Nid yw'r cyfrifoldebau dros alw ar drefniadau Parhad Busnes ac Adfer o Drychineb TGCh wedi eu dyrannu'n ffurfiol ac nid oes trefn ffurfiol o adnabod sefyllfa fusnes gritigol i roi blaenoriaeth pe bai trychineb yn digwydd.

Cafodd y cyfrifoldeb dros Barhad Busnes ei drosglwyddo o Adnoddau Dynol i Wasanaethau Cynllunio ac Amgylcheddol yn 2010-11 tra bod Dogfen Adnabod Prosiectau (PID) wedi'i chyflwyno i gynhyrchu'r cynlluniau angenrheidiol ac i gaffael yr adnoddau angenrheidiol.

## **Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

### **Thema 1 – Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol**

- Cydymffurfio gyda'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol fel a gytunwyd arnynt ac a dderbyniwyd gan y Cyngor Llawn ar 8 Mawrth 2011.

### **Thema 2 – Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor.**

- Adolygu Protocol Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion y Cyngor, sef 5.3 yn y Cyfansoddiad, ar y cyd â'r Protocol Gwybodaeth; a
- Pob chwarter, adolygu cynlluniau hyfforddiant yr Aelodau a phresenoldeb yr Aelodau ar y cyrsiau hyfforddi.

### **Thema 4 – Safonau ymddygiad gan Aelodau a Swyddogion.**

- Disgrifiadau swydd a manylebion person wedi eu derbyn yn llawn gan Swyddfa'r Swyddogion Monitro.
- **Thema 8 – Gwella cynhwysedd, ansawdd a rheolaeth gwasanaeth cefnogol corfforaethol**

- Cynhyrchu cynllun gweithredu gogyfer gyrru blaenoriaeth gwelliant swyddogaeth Cyllid.
- Blaenoriaethu argymhellion “ICT Peer Review” a chynhyrchu cynllun gweithredu gogyfer gwelliant.
- Gweithredu ar elfennau hanfodol o raglen waith strategol adnoddau dynol.
- Datblygiad a gweithrediad o’r broses newydd o adolygiad datblygu personol corfforaethol.



## **Egwyddor Pedwar: Gwneud penderfyniadau tryloyw a gwybodus sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg.**

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae'r Cyfansoddiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn sefydlu cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau. Gwneir penderfyniadau ar ôl ystyried y cyngor proffesiynol priodol. Mae penderfyniadau gweithredol yn cael eu cyhoeddi ac maent yn destun craffu. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle i gofnodi perfformiad y Cyngor yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lleol a chenedlaethol.

**Cyfarfodydd Cyn Gyngor** – Cynhelir y rhain cyn pob Pwyllgor Craffu, Archwilio a Chynllunio ac, ers Ebrill 2011, cyn cyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr hefyd. Mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion a'r uwch swyddogion perthnasol yn bresennol ynddynt. Amcan y cyfarfodydd hyn yw cynefino'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyda'r eitemau a'r adroddiadau ar yr agenda, nodi unrhyw faes pwysig neu fater sy'n debygol o fod yn un cynhennus, a darparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennau ategol ychwanegol sydd eu hangen ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Pwrpas y cyfarfodydd hefyd yw hwyluso llif gwaith y pwyllgorau a sicrhau y gellir rheoli'r cyfarfodydd yn effeithiol.

**Pwyllgor Archwilio** – Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wneud y Pwyllgor Archwilio'n fwy effeithiol drwy drefnu gweithdai ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau ac uwch swyddogion. Dyfeisiwyd y gweithdai hyn i gyflawni hunan-asesiad o effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor drwy gymharu ei berfformiad gyda'r hyn a nodir fel ymarfer gorau yn y Pecyn Cymorth i Bwyllgorau Archwilio Awdurdod Lleol a gynhyrchwyd gan Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA.

**Rheoli Perfformiad** – Dros y cyfnod, mae'r Cyngor wedi datblygu ymhellach y defnydd a wneir o'r pecyn rheoli perfformiad 'Ffynnon'. Erbyn hyn defnyddir Ffynnon fel prif offeryn rheoli perfformiad y Cyngor a hwn yw sylfaen y cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Chwarterol.

### **Meysydd gwendid sydd wedi eu nodi**

**Rheoli Risg** – Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu na gweithredu fframwaith Rheoli Risg ffurfiol. Mae adolygiad o'r trefniadau rheoli risg o fewn gwasanaethau wedi canfod rhai arferion da ac mae cofrestr risg gweithredol wedi eu cynhyrchu a'u cynnal ar gyfer rhai gwasanaethau.

Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Cofrestr Risg Gorfforaethol ffurfiol ac, felly, ni all gofnodi'n ffurfiol y risgiau y mae'n eu hwynebu i gyflawni ei amcanion, pa mor ddifrifol yw'r risgiau hynny a pha mor effeithiol yw'r trefniadau presennol i leihau'r risgiau hynny. Mae gan hyn oblygiadau i lywodraethu o ran nad oes gan y gwneuthurwyr penderfyniadau bob amser wybodaeth yng nghyswllt risg wrth wneud y penderfyniadau hynny ac nid oes unrhyw sicrwydd corfforaethol bod y risgiau allweddol i'r awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar ddatblygu a gwreiddio system Rheoli Risg ffurfiol yn y Cyngor a rhaid paratoi Cofrestr Risg Gorfforaethol gychwynnol erbyn diwedd Tachwedd 2011.

Mae cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg yn un o ddeg Thema Gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr ar gyfer y Cyngor.

**Materion Cydymffurfio gyda Pholisi** – Mae adolygiadau Archwilio Mewnol diweddar wedi canfod diffyg cydymffurfio gyda nifer o bolisiau corfforaethol allweddol. Mae darganfyddiadau'r adolygiadau wedi eu dwyn ynghyd mewn un Adroddiad Adolygiad Thematig o Bolisi sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu argymhellion i wella cydymffurfio.

Prif ddarganfyddiadau'r adroddiad oedd nad oes cofrestr ganolog o bolisiâu i sicrhau bod cyfres bolisiâu'r Cyngor yn gyflawn a chyfredol ac nad oes unrhyw system yn ei lle i atgoffa awduron / perchnogion polisiâu o bryd mae angen adolygu a / neu ddiweddarau'r polisi. Nid oes gan y Cyngor system yn ei lle i sicrhau bod Aelodau a Swyddogion wedi darllen, deall a'u bod yn cytuno i lynu wrth bolisiâu nac i gadw cofnod o'r rhai sydd wedi gwneud hynny.

Yn gyffredinol, nid oedd y polisiâu'n dynodi Swyddog penodedig i fod yn gyfrifol am weithredu'r polisi ac i fonitro cydymffurfio a rhoi sicrwydd corfforaethol y glynir yn barhaus wrth y polisiâu.

## **Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

### **Thema 3 – Craffu a'i allu i herio a dylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau a pholisiâu.**

- Llai o achosion galw i mewn oherwydd swyddogaeth cyn-graffu fwy trylwyr.
- Adlewyrchu llais y Cyhoedd ynghylch pryderon i'w Craffu drwy fonitro nifer y dinasyddion neu gynrychiolwyr o grwpiau cymunedol sy'n cyfrannu at y broses Graffu, e.e. drwy fynychu cyfarfodydd / ymateb i holiaduron;
- Sicrhau bod Craffu'n cyflawni ei swyddogaeth o fod yn ffrind **beirniadol** i'r Weithrediaeth.

### **Thema 7 – Cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg.**

- Cofrestr Risg Gorfforaethol i fod yn ei lle ac yn weithredol erbyn Hydref 2011.

## **Egwyddor Pump: Hyrwyddo gwerthoedd ar gyfer yr awdurdod a dangos gwerth llywodraethu da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel.**

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae gan y Cyngor Godau Ymddygiad ar gyfer ei Aelodau a'i Swyddogion. Mae Polisi i Atal Twyll a Llygredd yn ei le ac mae gan y Cyngor Swyddog Monitro dynodedig a Phwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal.

**Protocol ar Hunanreoleiddio** – Mae arweinwyr gwleidyddol y Cyngor wedi addo glynu wrth safonau ymddygiad uchel er mwyn symud yr Awdurdod yn ei flaen ac maent i gyd wedi llofnodi protocol ar gyfer hunanreoleiddio.

Maent wedi cytuno y dylai disgyblaeth y grŵp fod yn un o gonglfeini hunanreoleiddio; y dylid osgoi gwrthdaro personol yn y Cyngor Llawn ac yn y cyfryngau; y dylid gwneud ymdrechion rhesymol i ddatrys anghydfod drwy brosesau mewnol cytunedig a chymryd cyfrifoldeb dros weithredoedd aelodau o'u grŵp.

Mae Aelodau'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu a hyfforddi ymhellach i gefnogi'r protocol ar hunanreoleiddio.

**Pwyllgor Safonau – Rhaglen Waith** – Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 3 Cynghorydd Sir, un Cynghorydd tref / cymuned, a phump o bobl annibynnol (nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn weithwyr i'r Cyngor). Mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer Mawrth 2011 tan fis Mawrth 2012 sy'n nodi rhaglen waith glir yn erbyn amserlen ac adnoddau.

**Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion** – Pwrpas y protocol hwn yw nodi'r safonau ymddygiad y disgwylir i Aelodau a Swyddogion y Cyngor gadw atynt yn eu perthynas â'i gilydd tra'n rhoi arweiniad ar rai o'r materion sydd fel arfer yn codi. Mae'n cael ei gydnabod mai ansawdd ac effeithiolrwydd y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor yw hanfod llywodraethu lleol da. Y nod cyffredin yw sicrhau cysylltiadau gweithio da rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor drwy weithio gyda'i gilydd i gefnogi rolau'r naill a'r llall.

Mae'r Cyngor o'r farn na all unrhyw awdurdod lleol weithredu'n effeithiol heb berthynas dda rhwng ei Gynghorwyr a'i Swyddogion. Pwrpas y protocol yw arwain Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu perthynas â'i gilydd.

### **Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

#### **Thema 1 – Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol**

- Cydymffurfio gyda'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol fel a gytunwyd arnynt ac a dderbyniwyd gan y Cyngor Llawn ar 08 Mawrth 2011.

**Thema 2 – Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor.**

- Cynnal gwrandawriad rhagarweiniol o fewn 6 wythnos yn dilyn atgyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Is-Bwyllgor Indemniad;
- Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am oddefebau a dderbyniwyd gan Gyngorwyr Sir o dan Offeryn Statudol 2011;
- Goruchwylio'r ddau adolygiad blynyddol o'r Gofrestr Buddiannau Aelodau gan roi cyngor ac arweiniad i ddilyn, lle bo'n briodol;
- Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy gynnal adolygiadau blynyddol, gan roi cyngor ac arweiniad i ddilyn, lle bo'n briodol;

## **Egwyddor Chwech: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned tra'n creu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.**

### **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

**Strategaeth Gymunedol Ynys Môn 'Gwella Bywyd ar Ynys Môn' (2005-15)** – Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer yr ynys ynghyd ag amcanion hirdymor ar gyfer yr ardal. Mae'r Strategaeth Gymunedol a dogfennau allweddol eraill yn rhoi'r cyd-destun strategol ar gyfer nifer o raglenni gwaith y Cyngor.

### **Cynllun Gwella Cyngor Sir Ynys Môn (Cynllun Busnes Corfforaethol) 2010-11**

Roedd Cynllun Gwella 2010-11 yn nodi'r blaenoriaethau am y flwyddyn ac yn seiliedig ar bum blaenoriaeth gorfforaethol newydd a ddatblygwyd ac a fabwysiadwyd yn dilyn ymgynghori'n helaeth arno. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn cynnig glasbrint ar gyfer datblygiadau a gwelliannau presennol ac i'r dyfodol.

Mae'r Cynllun Gwella'n nodi beth yw nod strategol mabwysiedig y Cyngor, sef:

*Bydd y Cyngor yn hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.*

Mae'r Cynllun Gwella hefyd yn cynnwys y pum blaenoriaeth strategol a gytunwyd arnynt sy'n cefnogi'r nod hwn. Meysydd thematig eang yw'r blaenoriaethau strategol sy'n cynnig dull cytbwys er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol y Cyngor, canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu corfforaethol gwell, gwasanaethau mwy effeithlon a chanlyniadau i'r gymuned.

Blaenoriaethau strategol y Cyngor yw:

- BS1 - Gwella enw da'r Cyngor a'r Ynys;
- BS2 – Gwarchod a datblygu economi'r Ynys;
- BS3 – Creu a chefnogi cymunedau cynaliadwy;
- BS4 – Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg; a
- BS5 – Gwasanaethau Fforddiadwy a Chraff am Fusnes

Mae'r Cynllun Gwella'n dangos ffocws y Cyngor ar gynllunio gwelliannau yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol** – Mae'r Bwrdd yn gorff aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn, yr Heddlu, y Gwasanaethau Iechyd a Thân, y Sectorau Gwirfoddol, Addysg Bellach ac Uwch ac Un Llais Cymru i gynrychioli'r cynghorau cymuned a thref lleol. Pwrpas y Bwrdd yw llunio blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i'r sialensau mawr sy'n wynebu'r Ynys dros y blynyddoedd nesaf.

**Arwain yr Ynys Ynni** – Mae gan Raglen Ynys Ynni'r Cyngor y potensial i gynhyrchu mwy na £2.3 biliwn ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru dros y 15 mlynedd nesaf drwy ystod o brosiectau ynni.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, i ddatblygu'r rhaglen hon. Mae'r rhanddeiliaid wedi cytuno'n derfynol ar gytundeb cydweithredu i symud ymlaen gyda'r rhaglen waith bwysig hon.

Bydd y Rhaglen Ynys Ynni'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r cyfleoedd gwaith ac economaidd-gymdeithasol fydd ar gael yn lleol drwy'r buddsoddiadau ynni sylweddol ar yr Ynys; gan gynnwys y gwaith newydd yn Wylfa gan Centrica a'r datblygiadau ffermydd gwynt ar y môr gan RWE. Bydd yr ymdrechion hyn yn cael eu cydgysylltu a'u harwain gan Dîm Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor.

**Prosesau Cynllunio Busnes** – Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Cynllun Busnes Corfforaethol sy'n disgrifio rhaglen waith lefel uchel y Cyngor am y flwyddyn nesaf tra'n manylu ar nifer o amcanion ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn adeiladu ar flaenoriaethau cynllun y flwyddyn cynt gyda'r ffocws yn parhau ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd i ddinasyddion.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw dinasyddion a chymunedau i gefnogi'r blaenoriaethau allweddol, ac yn ymgynghori gydag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod ffocws y Cyngor ar ddarparu'r canlyniadau iawn.

Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n helaeth ar ei flaenoriaethau, gyda sawl un yn dweud pa mor bwysig yw ceisio diwallu anghenion economaidd yr Ynys, a swyddi'n enwedig. Mae'r Cynllun Busnes Corfforaethol am 2011-12 yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw adfywio'r economi a'r rhaglen Ynys Ynni i'r ardal leol a thu hwnt.

Mae'n ofynnol i bob Gwasanaeth gynhyrchu Cynllun Busnes ar gyfer y Gwasanaeth hwnnw, wedi ei gysylltu i amcanion corfforaethol y Cynllun Busnes Corfforaethol. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth yn disgrifio sut fydd pob Gwasanaeth yn cyfrannu at gwrdd amcanion y Cyngor.

## **Meysydd gwendid sydd wedi eu nodi**

Nid oedd y prosesau Cynllunio Busnes am 2010-11 a 2011-12 yn cynnwys cyfeiriad at risg yn y cynlluniau a gynhyrchwyd.

## **Themâu Gwella Perthnasol y Comisiynwyr**

**Thema 6 – Datblygu blaenoriaethau strategol gyda mwy o fesuriadau seiliedig ar ganlyniad.**

- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i adnabod blaenoriaethau seiliedig ar ganlyniad er mwyn llunio Cynllun Corfforaethol 2012/15 a Strategaeth Gymunedol 2012/15.

**Thema 10 – Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

- Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15 sy'n seiliedig ar ganlyniadau ynghyd â mesurau a dangosyddion perfformiad clir.

## **RHAN 5: ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD A'R TREFNIADAU CRAFFU**

**Pwyllgor Archwilio** – Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gyfrifol am gyflawni adolygiad blynyddol o ba mor effeithiol yw trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor drwy gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei oleuo gan waith a chyswllt y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac aelodau eraill o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, y Penaethiaid Gwasanaeth a chan adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio ynghyd â sylwadau a barn yr Archwilydd Allanol ac asiantaethau sicrwydd trydydd parti eraill.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn gyfrifol am benderfynu ynghylch Cynlluniau Gweithredol a Strategol yr Archwilwyr Mewnol ac am fonitro perfformiad yn eu herbyn, hefyd am ddatblygu diwylliant o wrth-dwyll ac am adolygu gweithrediadau ariannol y Cyngor. Rôl y Pwyllgor Archwilio hefyd yw cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

**Pwyllgorau Craffu –** Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yw dal y Weithrediaeth i gyfrif fel ffrind beirniadol tra'n monitro a helpu gyda'r gwaith o wella a datblygu polisïau a gwasanaethau'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor bump o Bwyllgorau Craffu sy'n cynghori ar lunio polisi ac sy'n dal y Cynghorwyr (y Comisiynwyr ar hyn o bryd) i gyfrif ar faterion penodol. Medrant hefyd adolygu meysydd gwaith y Cyngor nad ydynt yn dod o dan gyfrifoldeb y Comisiynwyr, neu faterion sydd o bryder lleol ehangach. Y pump Pwyllgor Craffu yw:

- Corfforaethol;
- Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol;
- Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo; ac
- Addysg a Hamdden.

Mae Blaenraglen Waith ar gyfer pob un o'r pum Pwyllgor wedi'i chynhyrchu sy'n nodi pryd fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal a'r materion sydd i'w cynnwys ym mhob cyfarfod.

**Gwasanaeth Archwilio Mewnol –** Darperir y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy'n cynnig barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad am ei reolaeth fewnol a'i drefniadau llywodraethu a rheoli risg. Mae'n archwilio, gwerthuso ac yn adrodd yn wrthrychol ar ba mor foddhaol yw'r amgylchedd reoli o ran cyfrannu at ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn ar system gyffredinol rheolaeth fewnol y Cyngor.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2010-11 bod tri maes wedi'i dynodi lle roedd gwendidau rheolaeth arwyddocaol fyddai'n rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheolaeth fewnol mewn perthynas a'r systemau hynny a archwilwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hynny oedd Parhad Busnes, Rheoli Risg a Llywodraethu. Mae cyfeiriad wedi'i wneud yn y Datganiad yma at pob un o'r maesydd.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dod i'r casgliad nad oedd yr archwiliadau a wnaed ac a gwblhawyd yn 2010-11 yn nodi unrhyw feysydd eraill lle'r oedd pryder ac sy'n cael eu hystyried yn arwyddocaol neu'n dyngedfennol i fusnes y Cyngor yn gyffredinol ac eithrio's rheini y sonnir amdanynt uchod.

Fel rhan o'u swyddogaeth/rôl arwahan mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn rhoi gwybod i'r swyddogion perthnasol am unrhyw ddiffyg cydymffurfio gyda deddfwriaeth, rheoliad neu bolisi ac yn adrodd ar hynny i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor.

**Pwyllgor Safonau** – Mae'r Pwyllgor Safonau'n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys helpu'r Cynghorwyr i ddilyn eu Cod Ymddygiad.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Chynghorydd Sir, un Cynghorydd tref / cymuned, a phump o bobl annibynnol (nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn weithwyr i'r Cyngor).

-----  
**Arweinydd y Cyngor**

-----  
**Prif Weithredwr**